

HEDDLU DE CYMRU

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

2012 - 2016

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2013



ARCHEBU FFORMATAU GWAHANOL

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol hwn ar gael mewn amrywiaeth o fformatau eraill ar gais.

Gallwch lawrlwytho copïau o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol hwn o'n tudalen mewnwyd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth neu o wefan Corfforaethol Heddlu De Cymru:

www.heddlu-de-cymru.police.uk

Dros y ffôn:

01656 655555 estyniad 20890 / 20893 / 20209

Drwy ffacs: 01656 761826

Paratowyd yr adroddiad gan:

Nicola Morgan MCIPD, MSc HRM, PGDipLP, LLB

Prif Swyddog Amrywiaeth

CYNNWYS

1	Proffil Heddlu De Cymru
2	Cyflwyniad a chefnidir y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
3	Crynodeb o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol
4	Amcanion
5	Cynnydd a Chyflawniadau'n Ystod Blwyddyn un y Cynllun
26	Gweithredu Cadarnhaol
30	Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
31	Rhestr Termau

AMDANOM NI: EICH HEDDLU DE CYMRU

Rydym yn darparu gwasanaeth 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod bob amser yn hygyrch ac yn gallu darparu gwasanaeth sy'n ymatebol i anghenion ein cymunedau.

Mae ein hardal blismona yn cwmpasu saith ffin awdurdod unedig, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Abertawe, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd a Phort Talbot a Bro Morgannwg. Mae'r ardal blismona wedi'i rhannu'n bedair Uned Reoli Sylfaenol sy'n rheoli plismona'n lleol ac mae'n cwmpasu 42% o boblogaeth Cymru.

O fewn ein hardal blismona o 1,283,651 o breswylwyr¹, nododd 49.1% eu bod yn ddynion a 50.9% eu bod yn ferched. Yn ogystal â'r 1,283,651 o breswylwyr, rydym yn cydnabod bod yr ardal blismona yn cynnwys nifer fawr o fyfyrwyr Prifysgol, a amcangyfrifir yn 100,430², sydd heb eu cynnwys yn nata'r Cyfrifiad. Mae De Cymru hefyd yn denu sawl miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, gyda Chanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd yr atyniad mwyaf poblogaidd yng Nghymru i dwristiaid.

Mae oedran poblogaeth De Cymru yn eithaf cytbwys, gyda 29.9% yn cynrychioli'r grŵp oedran o dan 25 oed, 45.82% yn cynrychioli'r grŵp oedran rhwng 25 a 59 oed a 24.28% yn cynrychioli'r grŵp oedran dros 60 oed. Nododd 18.38% bod ganddynt rywfaent o ddealltwriaeth o Gymraeg ysgrifenedig neu ar lafar. Dangosodd data Cyfrifiad 2011 bod 22.9% o breswylwyr o fewn yr ardal blismona yn nodi bod ganddynt salwch hirdymor sy'n effeithio ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Yn Ne Cymru, mae 4.58% o'r boblogaeth yn bobl economaidd weithgar ddi-waith³, sy'n arwydd o lefel amddifadedd.

Dangosodd data'r Cyfrifiad fod 6.6% o'r boblogaeth yn Ne Cymru wedi nodi eu cefndir ethnig fel lleiafrif ethnig, gyda 15.3% o'r boblogaeth yng Nghaerdydd a 6% yn Abertawe yn nodi cefndir lleiafrif ethnig. Rydym yn cydnabod y gall y ganran wirioneddol fod yn uwch erbyn hyn o ganlyniad i weithwyr mudol o Ddwyrain Ewrop sydd bellach yn byw yn Ne Cymru ers i wyth gwlad ymuno â'r Undeb Ewropeaidd yn 2004.

Dywed y gyfran uchaf o drigolion (53.8%) eu bod yn Gristnogion gyda 34.9% yn nodi nad oeddent yn perthyn i unrhyw grefydd. Nododd niferoedd bychain mai eu crefydd yw Bwdhaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Mwslim neu Sikhiaeth.

Nid oes unrhyw ddata ystadegol ar gael yn gyhoeddus ar y nifer gwirioneddol o bobl yn Ne Cymru sy'n nodi eu bod yn drawsrywiol, sy'n cynnwys trawswisgwyr, gan nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu drwy'r cyfrifiad nac unrhyw gyfrifiad arall o'r boblogaeth ar hyn o bryd. Mae Heddlu De Cymru yn gweithio'n agos gyda Transgender Cymru, TAFE Butterflies, MTF Wales a Chymdeithas Genedlaethol Heddlu Trawsrywiol.

Gan nad yw data'r Cyfrifiad yn gofyn i breswylwyr nodi eu tueddfryd rhywiol, nid oes unrhyw ddata pendant ar nifer y bobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol yn y DU. Fodd bynnag, amcangyfrifa Actwari'r Llywodraeth fod 6% o'r boblogaeth yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol⁴.

Mae natur y gwaith yn golygu ein bod yn delio â'r annisgwyl ac oherwydd hynny, gall y gwasanaeth a ddarperir gennym fod yn amodol ar alwadau amrywiol. Drwy bennu Amcanion Lleol a rheoli galw'n effeithiol, rydym yn ceisio sicrhau y gwneir pob ymdrech i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r cyhoedd pan mae ein hangen arnynt.

1 Data Cyfrifiad 2011

2 Data Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch 2011/12

3 Mae'r term **economaidd weithgar** yn cyfeirio at bobl rhwng 16 a 74 oed sydd mewn gwaith neu ar gael i weithio

4 Stonewall

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR Y CYNLLUN

Yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'n ddyletswydd arnom i hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r nodweddion gwarchodedig, sef oedran, anabledd, aibennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol a phennu o leiaf un amcan cydraddoldeb.

Yn 2012, dewisodd Heddlu De Cymru bennu chwe amcan cydraddoldeb ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol ac ystyried amrywiaeth o waith ymchwil arwyddocaol, dilys a diweddar, lle roedd rhai darnau wedi'u gwneud gan y canlynol;

- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (h.y. Hidden in Plain Sight – Inquiry into Disability Related Harassment / Stop & Think / Not Just a Statistic ac ati);
- Heddlu De Cymru (anabledd - mynediad a darparu gwasanaeth a REFORM ac ati);
- Awdurdod Heddlu De Cymru (h.y. Hapsamplu Stopio a Chwilio);
- Safon Cydraddoldeb ar gyfer Gwasanaeth yr Heddlu (fframwaith yn cynnwys 22 o unedau); a
- gwaith ymchwil arall (Comisiwn Fawcett ac ati);

Caiff y chwe amcan cydraddoldeb eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chawsant eu datblygu i gyflawni nodau'r ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol a chanolbwyntio ar faterion cydraddoldeb mwyaf arwyddocaol Heddlu De Cymru fel y'u nodwyd drwy'r gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd fel y disgrifir uchod.

Cafodd Cynllun Gweithredu clir a chryno ei rannu gyda phob Uned Reoli Sylfaenol (URhSau), a elwir yn Is-adrannau weithiau, ac Adrannau o fewn yr Heddlu fel eu bod yn glir ynghylch pam fod yr amcanion wedi'u nodi a pha ganlyniadau y gobeithir eu cael yn sgîl yr amcanion. Ers mis Ebrill 2012, mae URhSau ac Adrannau wedi ystyried sut y gallant gael effaith gadarnhaol ar y chwe amcan cydraddoldeb yn eu maes gwaith a gwnaethant ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol ar gyfer eu meysydd gwaith. Y diben cyffredinol oedd datblygu materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ffordd sy'n:

- Darparu'r gwasanaeth gorau posibl i

gymunedau De Cymru, yn y ffordd decaf a mwyaf effeithiol.

- Darparu amgylchedd agored a chynhwysol i bobl o bob cefndir amrywiol, fel bod pobl o'r fath am ymuno â Heddlu De Cymru, gweithio i ni a thyfu gyda ni.
- Caniatáu i ni ddatblygu cydberthnasau cyfredol gyda grwpiau cyfranogol cymunedol a rhanddeiliaid allweddol, tra'n gwrandao ar lais unigolion o fewn y cymunedau, meithrin cydberthnasau gwaith cadarn gydag unigolion a chymunedau a chaniatáu cyfathrebu dwy ffordd.

Roedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys elfennau o Gynllun Cydraddoldeb Sengl 2010-2013, Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol 2010-2013 a'r Safon Cydraddoldeb ar gyfer Gwasanaeth yr Heddlu.

Mae ein Cynllun yr Iaith Gymraeg 2011-2014 yn parhau ar wahân i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn a bydd yn mynd i'r afael â dyletswydd Heddlu De Cymru i:

- roi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg wrth wneud ein busnes.
- gwella'r ddarpariaeth o wasanaeth i'r cyhoedd yn eu dewis iaith.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i baratoi ar ran y sefydliad gan yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a'n URhSau a'n Hadrannau sydd wedi dangos tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth â'r Cynllun, drwy roi tystiolaeth ar gynnydd ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth yn chwarterol i'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Dyma'r adroddiad monitro blynyddol cyntaf sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Heddlu 2012-2016 a'i chwe amcan cydraddoldeb allweddol.

Yn ogystal â chynyddu yn y meysydd a nodir yn yr amcanion cydraddoldeb, ein bwriad yw parhau i wella ac ymdrechu i gynnwys pawb yn ein darpariaethau. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth gwell ac, yn bwysicach, cynnwys materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn fwy cryno, ym musnes o ddydd i ddydd Heddlu De Cymru.

CRYNODEB O DDYLETSWYDD CYDRADDOLDEB Y SECTOR CYHOEDDUS

Daeth Dyletswydd Cydraddoldeb newydd y sector cyhoeddus i rym ar 5 Ebrill 2011. Mae'n disodli'r tair dyletswydd flaenorol ar hil, anableded a rhyw, gan eu dwyn ynghyd mewn un ddyletswydd sengl, ac yn ei ymestyn i gwmpasu oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd (yn llawn).

Mae'r **ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol** newydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried;

- A Dileu gwahaniaethu**
- B Datblygu cyfle cyfartal; a**
- C Meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol**

wrth ddatblygu polisiau a darparu gwasanaethau. Y nod yw i gyrff cyhoeddus ystyried anghenion pob unigolyn yn eu gwaith o ddydd i ddydd, wrth ddatblygu polisiau, darparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'u cyflogaion eu hunain.

Yn ogystal â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb gyffredinol a nodir uchod, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi pŵer i'r Llywodraeth gyflwyno dyletswyddau penodol ar rai cyrff cyhoeddus, sy'n cynnwys heddluoedd, i'w galluogi i fodloni eu rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol, a'u gwneud yn fwy atebol i'r cyhoedd.

Mae'n ofynnol i gyrff sydd heb eu datganoli yng Nghymru (fel Heddlu De Cymru) fodloni dyletswyddau penodol y sector cyhoeddus a ddatblygwyd gan lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, sy'n llai manwl na dyletswyddau penodol y sector cyhoeddus ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, gall gyrff sydd heb eu datganoli fabwysiadu dyletswyddau Sector Cyhoeddus Cymru, os byddant am wneud hynny.

Mae Dyletswyddau Penodol Cymru yn ategu'r Ddyletswydd Gyffredinol ac wedi'u datblygu o amgylch pedair prif egwyddor:

- Defnyddio tystiolaeth
- Ymgynghori a Chymryd Rhan
- Tryloywder
- Arweinyddiaeth

Bydd Heddlu De Cymru yn bodloni pob un o ddyletswyddau Sector Cyhoeddus Lloegr a hefyd yn mabwysiadu elfennau priodol o ddyletswyddau Sector Cyhoeddus Cymru pan fo arfer da a gwerth ychwanegol yn cael eu nodi.

O ystyried Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru a Lloegr, bydd Heddlu De Cymru yn;

- Cyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb erbyn 3 Iain Ionawr 2012, sy'n arddangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol ac wedi hynny yn gyfnodol heb fod yn hwy na blwyddyn, yn dechrau gyda dyddiad y cyhoeddiad diwethaf;
- Cyhoeddi gwybodaeth am fonitro cyflogaeth yn rheolaidd;
- Cyhoeddi o leiaf un amcan cydraddoldeb SMART sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau erbyn 6ed Ebrill 2012, wedi'u nodi mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- Cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gynnydd yr amcanion cydraddoldeb a bennir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- Cyhoeddi o leiaf un amcan cydraddoldeb newydd o leiaf bob pedair blynedd o ddyddiad y cyhoeddiad diwethaf;
- Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Carry out Equality Impact Assessments

AMCANION

Mae'r chwe amcan cydraddoldeb a bennir gan Heddlu De Cymru, mewn ymgynghoriad â'n cyfranwyr i'r Cynllun Strategol hwn, yn uchelgeisiol ac yn canolbwyntio ar yr heriau cydraddoldeb mwyaf sy'n wynebu Heddlu De Cymru.

Beth ydynt?

Wrth benderfynu pa amcanion cydraddoldeb i'w pennu, gwnaethom ystyried tystiolaeth materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb o fewn ein holl swyddogaethau; ystyried y materion sy'n effeithio ar bobl sy'n rhannu pob un o'r nodweddion gwarchodedig; ystyried y gwelliannau sydd eisoes yn cael eu gwneud drwy bolisiau a gweithdrefnau mewnol; a meddwl am bob un o dair nod y Ddyletswydd Gydraddoldeb.

- 1 Drwy weithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector byddwn yn pennu ac yn ymyrryd yn yr achosion risg uchaf o aflonyddu ar sail anabledd drwy broses Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC). (Darpariaeth Weithredol, Proses Sefydliadol)
- 2 Dros y pedair blynedd nesaf byddwn yn parhau i gynyddu faint o bobl o'r categorïau a gaiff eu monitro sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau casineb / troseddau casineb, ond yn fwy penodol, byddwn yn datblygu mentrau penodol i gynyddu faint o Sipsiwn a Theithwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl drawsrywiol a phobl anabl, yn cynnwys pobl sydd â chyflwr iechyd meddwl, sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau / troseddau casineb. (Darpariaeth Weithredol)
- 3 Dros y pedair blynedd nesaf byddwn yn rhoi mentrau ar waith i archwilio canfyddiadau'r gymuned o bwerau Stopio a Chwilio ac yn defnyddio'r canlyniadau i godi ymwybyddiaeth swyddogion yr heddlu ymhellach o'r seiliau angenrheidiol ar gyfer Stopio a Chwilio (Darpariaeth Weithredol, Proses Sefydliadol)
- 4 Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn gwerthuso ac yn datblygu'r ffyrdd y gall y cyhoedd gysylltu â ni*. Byddwn yn cynnwys ein cymunedau ac yn ymgysylltu â hwy ac yn defnyddio ein canfyddiadau i ddatblygu a gweithredu mentrau yn benodol i ddiwallu anghenion mynediad pobl anabl, pobl drawsrywiol, pobl hŷn a phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. (Darpariaeth Weithredol, Proses Sefydliadol)
- 5 Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn sefydlu gwaelodlin bodlonrwydd/anfodlonrwydd ar gyfer profiad merched a gedwir yn y Ddalfa. Bydd y gwaith ymchwil hwn yna'n llywio'r gwaith o ddatblygu amcan cydraddoldeb strategol i gynllunio a gweithredu mentrau priodol i ddiwallu anghenion penodol merched a gedwir yn y Ddalfa. (Darpariaeth Weithredol)
- 6 Gan ddefnyddio asesiad Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2012 fel gwaelodlin, byddwn yn parhau i ysgogi cydraddoldeb tueddfryd rhywiol yn y gweithle mewn perthynas ag arweinyddiaeth, polisi, hyfforddiant, monitro, datblygu gyrfa a datblygu rheolwyr ac yn canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â staff a'n grŵp rhwydwaith cefnogi staff Lesbïaidd, Hoyw a Deurywiol (LHD). (Pobl a Diwylliant)

* dros y ffôn; siarad yn uniongyrchol â swyddog yr heddlu neu PCSO - drwy apwyntiad neu ar batrôl; yn bersonol yng ngorsafodd yr heddlu ym mhob rhan o'r heddlu; drwy bwyntiau mynediad cymunedol symudol - cerbydau pwrpasol sy'n teithio o gwmpas yr ardal yn rhoi mynediad i gwsmeriaid ar garreg eu drws; ar y we; drwy lythyr neu e-bost; drwy wefannau Rhwydweithio Cymdeithasol

Mae'r chwe amcan cydraddoldeb a ddewiswyd i Heddlu De Cymru eu datblygu dros y pedair blynedd nesaf yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwasanaeth gan ein bod yn cydnabod mai dyma ein busnes craidd. Rydym yn fodlon y gall, ac y dylai, unrhyw fylchau neu angen i wella a nodir, sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb yn y gweithle, ar wahân i'r rhai a nodir yn yr amcan gweithle a ddewisir, ddatblygu drwy bolisiau a gweithdrefnau mewnol newydd a chyfredol. Adroddir ar gynnydd o'r fath yn yr Adroddiadau Blynyddol a chânt eu cyhoeddi'n fewnol ac yn allanol

CYNNYDD A CHYFLAWNIADAU'N YSTOD BLWYDDYN UN Y CYNLLUN

1 Aflonyddu ar sail Anabledd

Drwy weithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, byddwn yn pennu ac yn ymyrryd yn yr achosion risg uchaf o aflonyddu ar sail anabledd drwy broses Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC). (Darpariaeth Weithredol, Proses Sefydliadol)

Beth rydym yn ceisio ei gyflawni?

Ymateb yn briodol i aflonyddu ar sail anabledd a gweithio tuag at atal aflonyddu ar sail anabledd.

Canlyniadau dymunol

Atal aflonyddu ar sail anabledd a rhoi cefnogaeth addas i'r dioddefwyr.

Camau a Gymerwyd

Un o'r argymhellion allweddol yn adroddiad cryno Cymru o adroddiad Hidden in Plain Sight y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol oedd gweithio mewn partneriaeth i atal aflonyddwch ac ymateb iddo a rhannu arfer effeithiol. Mewn ymateb i Ymchwiliad y Comisiwn i aflonyddu ar sail anabledd, ac mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allanol allweddol, cytunodd 4 heddlu Cymru i'r amcan cydraddoldeb uchod ar aflonyddu ar sail anabledd.

Fel cadeirydd Grŵp Amrywiaeth Cymru Gyfan, cytunodd Prif Gwnstabl Jackie Roberts (Heddlu Dyfed Powys) dreialu **MARAC** aflonyddu ar sail anabledd yn ardal Heddlu Dyfed Powys fel y gellid cynllunio pecyn cymorth y gallai pob un o Heddluoedd Cymru ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol i ddioddefwyr aflonyddu ar sail anabledd.

Ymrwymiad Grŵp Amrywiaeth Cymru Gyfan yw gwneud MARAC yn broses sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr a throseddwyd aflonyddu ar sail anabledd. Bydd yn cysylltu ag asesiadau risg mewn perthynas â dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn nodi p'un a yw dioddefwyr

yn anabl ac yn ystyried p'un a oedd yr anabledd yn ffactor o ran pam fod yr ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi digwydd ai peidio.

Ymhlith **argymhellion** allweddol cynllun peilot MARAC aflonyddu ar sail anabledd hyd yma mae'r canlynol;

- Mae adnabod dioddefwyr aflonyddu ar sail anabledd (dioddefwyr trosedd casineb) yn hytrach nac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gynnar yn hanfodol a dylai pob gwasanaeth partneriaeth sicrhau bod ganddynt y systemau gorau posibl ar waith i nodi'r dioddefwyr hyn cyn gynted â phosibl.
- Yn wir, mae angen proses MARAC i ddelio â materion unigolion risg uchel sy'n dioddef o elyniaeth, a hynny mewn ffordd broffesiynol gan ddefnyddio dull aml-asiantaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ystyried camau gweithredu'n ehangach nac aflonyddu ar sail anabledd yn unig, gyda'r meini prawf yn adlewyrchu hyn, er mwyn diogelu dioddefwyr risg uchel oherwydd casineb ac atal dioddefaint eto mewn achosion o'r fath.
- Mae'n hollbwysig nad ydym yn cyfyngu ar farn broffesiynol wrth nodi risg.
- Mae'n hanfodol bod pob gwasanaeth statudol yn defnyddio asesiad risg a dogfen atgyfeirio generig, fel bod y broses o fesur risg yn gyson.
- Mae angen i waith pendant fod yn barhaus yn dilyn cwblhau pecyn cymorth y MARAC aflonyddu ar sail anabledd er mwyn trefnu bod aelodau allweddol y partneriaethau'n ymrwymo i'r MARAC aflonyddu ar sail anabledd gyda phresenoldeb, gwneud penderfyniadau a chyda'r camau gweithredu dilynol ar ôl y MARAC.

Cyfarfu gweithgor MARAC aflonyddu ar sail anabledd Cymru Gyfan ym mis Mawrth 2013 i drafod y datblygiadau a'r canfyddiadau o'r cynllun peilot ac ystyried yr argymhellion fel y gall y gwaith cydweithredu ddatblygu ymhellach.

Caiff prosesau ac arferion Heddlu De Cymru eu

hadolygu i ymgorffori argymhellion. Yn y cyfamser, mae'r Polisi Trosedd Casineb wedi'i adolygu a'i gyhoeddi ynghyd â chanllawiau ym mis Chwefror 2013.

Mae Heddlu De Cymru yn cynrychioli gwasanaethau'r heddlu yng Nghymru ar **Grŵp Gweithredu Trosedd Casineb ar sail Anabledd Cymru**. Mae Grŵp Gweithredu Trosedd Casineb ar sail Anabledd Cymru yn bartneriaeth anffurfiol o sefydliadau sydd am wneud gwahaniaeth mewn perthynas â Throsedd Casineb ar sail Anabledd ac aflonyddu ar sail nam yng Nghymru. Bydd y grŵp yn codi ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb ac aflonyddwch ar sail Anabledd ymhlith pobl anabl a'r cyhoedd a thrwy hyn yn cynyddu faint o bobl sy'n rhoi gwybod am Droseddau Casineb ar sail Anabledd a'r colffarnau cysylltiedig. Mae'r grŵp hefyd yn bwriadu rhannu gwybodaeth am ein mentrau ein hunain er mwyn osgoi dyblygu'r ymdrech a diwallu anghenion dioddefwyr yr ymosodiadau hyn yn y ffordd orau.

Yn benodol, mae'r grŵp yn bwriadu:

- gwell hygyrchedd systemau cyfredol
- cefnogi aelod sefydliadau o fewn y grŵp ar faterion sy'n ymwneud â throsedd casineb
- codi proffil trosedd casineb ymhlith ein staff ac aelodau ein rhwydweithiau ein hunain
- gweithio gyda heddluoedd Cymru a'u herio ar sut maent yn delio â throsedd casineb ar sail anabledd
- gweithio gyda chleientiaid fel eu bod yn ymwybodol y gallant roi gwybod am y gamdriniaeth maent yn ei hwynebu'n rheolaidd
- gweithio i ddileu achosion trosedd casineb
- gweithio gyda'r heddlu i wella sut yr ymdrinnir â throsedd casineb ar sail anabledd
- cynorthwyo fforwm Cymru Gyfan i weithredu ei gynllun gweithredu

- gweithio mewn partneriaeth pan fo'n bosibl ond cydnabod bod gan y ddau ohonom weithiau agendâu ar wahân sy'n ymwneud â'n harbenigeddau penodol
- cefnogi mentrau aelodau ar drosedd casineb
- rhannu gwybodaeth gyda'r grŵp am faterion penodol, er enghraifft gyda Heddlu penodol yng Nghymru
- gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth a gwella sut y caiff strategaethau eu gweithredu mewn perthynas â Throsedd Casineb ar sail Anabledd

Fel aelodau o'r Grŵp Gweithredu Trosedd Casineb ar sail Anabledd, mae Heddlu De Cymru hefyd yn rhanddeiliaid sy'n llywio gwaith **Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu ar Drosedd Casineb**.

Cyhoeddwyd y Fframwaith Gweithredu yn erbyn Trosedd Casineb gan Jane Hutt, Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ym mis Chwefror 2012 ac mae'n rhan o Raglen y Llywodraeth. Bydd yn nodi ac yn cydgysylltu blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer gweithredu ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â throsedd casineb mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig Anabledd; Hil; Crefydd neu Gred; Tueddfryd Rhywiol; Ailbennu Rhywedd.

Bydd y fframwaith ar gael o wanwyn 2013 ac yn canolbwyntio ar dri maes allweddol a fydd yn cynnwys:

- Atal trosedd casineb;
- Cynyddu'r achosion o roi gwybod am drosedd, hyfforddiant a mynediad i gymorth;
- Gwella'r ymateb gweithredol i droseddau casineb.

Mae'r pedair **URS o fewn yr Heddlu yn gefnogol o'r gwaith o weithredu'r broses MARAC**. Mae URS y Gorllewin wedi cofnodi bod Swyddogion Trosedd Casineb yn chwilio drwy systemau TG NSPIS a Niche yr Heddlu yn ddyddiol i **nodi dioddefwyr aflonyddu ar sail**

anabledd. Mae cynllun ymchwilio Deg Pwynt wedi'i ddatblygu a chaiff cydymffurfiaeth ei fonitro drwy dasgio dyddiol a phrosesau Compstat. Mae hyn yn galluogi'r URS i ymchwilio i ddigwyddiadau ar sail anabledd yn effeithiol.

Mae swyddogion Trosedd Casineb ac Ymgysylltu URS y Gorllewin yn **gweithio tuag at broses fapio** a nodi grwpiau ac unigolion sydd ag anabledd er mwyn creu cyfeirlyfr KIN.

Mae **Proses ISTAM** ar waith ym mhob sector o fewn URS y Gorllewin. Mae ISTAMau yn gyfarfodydd aml-asiantaeth sy'n cynnwys swyddogion yr Heddlu, Tai, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl. Trafodir a rheolir dioddefwyr digwyddiadau casineb a chaiff mesurau ymyrryd eu rhoi ar waith i atal, datrys a phan fo angen, sicrhau y caiff troseddwyd eu herlyn.

Mae swyddogion Trosedd Casineb yn rhoi cyfarwyddyd i bob aelod o staff mewn perthynas ag aflonyddu ar sail anabledd er mwyn sicrhau bod y swyddogion sy'n rhan o'r digwyddiadau'n cael yr hyfforddiant/cyfarwyddyd priodol.

Cofnodwyd bod proses fapio wedi'i chwblhau a bod cyfeirlyfr yn cael ei lunio er mwyn ehangu ar **ymgysylltiad â grwpiau Anabledd** o fewn cymunedau URS y Gogledd a'i wella. Mae nifer o bartneriaid o drydydd partion eisoes yn rhan o gyfarfodydd fel Cydlyniant Cymunedol a'r grŵp adolygu trosedd casineb.

Arloesodd Swyddogion Trosedd Casineb URS y Gogledd bolisi cyfredol yr Heddlu ynghylch Cynlluniau Gweithredu ar Drosedd Casineb gydag asesiad risg. Mae'r cynlluniau hyn wrthi'n cael eu defnyddio ac yn cwmpasu strategaethau patrolio a lleoliad CCTV a Larymau Pwl o Banig. Ceir adolygiad parhaus o'u heffeithiolrwydd a'u cynhwysiant o aflonyddu ar sail anabledd.

Mae URS y Gogledd wedi cofnodi bod pob achos o **drosedd casineb ar sail anabledd** yn cael ei asesu mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol rhanbarthol ar gyfer **Bygythiad, Risg a Niwed**

ac yna cânt eu neilltuo i'r 'Ganolfan' i'w hymchwilio mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Trosedd Casineb.

Mae'r Uned Diogelu'r Cyhoedd wedi llunio **dogfen gofnodi sy'n nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas ag achosion anabledd risg uchel gydag asiantaethau eraill.**

Derbyniodd Gweithredwyr Canolfan Gwasanaethau'r Cyhoedd **hyfforddiant** mewn perthynas â 'Bygythiad, Risg, Niwed a Bod yn Agored i Niwed' ym mis Tachwedd a oedd, fel rhan o'r cwrs, yn mynd i'r afael yn benodol ag 'adnabod rhywun sy'n agored i niwed' a 'Holi Ymchwiliol'. Bydd yr hyfforddiant hwn yn caniatáu i staff y Ganolfan nodi risg a rhywun sy'n agored i niwed yn llwyddiannus yn y pwynt cyswllt cyntaf gan sicrhau y caiff pob digwyddiad ei reoli'n effeithiol.

Mae'n hanfodol y gall gweithredwyr y Ganolfan nodi 'Ffactorau sy'n Effeithio ar Rywun sy'n Agored i Niwed' ar y pwynt cyswllt cyntaf gydag aelodau'r cyhoedd. Cyflawnir hyn drwy gael staff y Ganolfan i ddefnyddio sgiliau holi allweddol a systemau cwestiynu gwybodaeth sydd ar gael iddynt. Yna, drwy ddefnyddio 'Bygythiad, Risg, Niwed a Bod yn Agored i Niwed', bydd yn galluogi Gweithredwyr y Ganolfan i asesu a graddio'r alwad yn gywir a sicrhau y darperir y gwasanaeth mwyaf priodol i'r unigolyn. Os bydd unigolyn wedi'i asesu fel 'Rhywun sy'n Agored i Niwed', bydd y Swyddog Ateb Galwadau yn ardystio maes crynodeb y digwyddiad perthnasol yn glir, ar NSPIS (System Wybodaeth Safonol Genedlaethol yr Heddlu), gyda'r marciwr 'VVP' (Polisi Dioddefwr sy'n Agored i Niwed, neu Vulnerable Victim Policy) ynghyd â 'rhesymeg' o ran sut mae'r unigolyn yn 'Agored i Niwed'. Ar ôl gorffen yr alwad, bydd Gweithredwr y Ganolfan yn cyfeirio'r digwyddiad at ei reolwr llinell ac yn hysbysu'r Arolygydd Efydd perthnasol o'r alwad. Bydd y rheolwr llinell yn sicrhau y caiff pob digwyddiad 'VVP' ei reoli'n

effeithiol ac y caiff yr adnoddau priodol eu defnyddio cyn gynted â phosibl yn unol â pholisi'r heddlu.

Mae Swyddogion Troseddau Arbenigol wedi dilyn y **sesiynau ymwybyddiaeth Hidden in Plain Sight** sy'n targedu aflonyddu ar sail anabledd i nodi unrhyw wersi y gellir eu cynnwys mewn systemau adrannol.

Mae'r Uned Troseddau Arbenigol yn parhau i **weithio mewn partneriaeth** gydag Awdurdodau Iechyd, Awdurdodau Lleol a phartneriaid allweddol eraill fel y Trydydd Sector, i wella gwasanaethau **a lleihau'r risg i'r rheini sydd â salwch meddwl**. Enghraifft o hyn yw'r gwaith cyfredol sy'n cael ei wneud gan yr Adran Diogelu'r Cyhoedd i adolygu dau achos sy'n cynnwys Arolygiaeth Iechyd Cymru a oedd yn ymwneud ag unigolion gyda salwch meddwl.

Mae Swyddog Iechyd Meddwl yr Heddlu o fewn yr Adran Diogelu'r Cyhoedd yn parhau i weithio gyda'r Asiantaeth Genedlaethol Dysgu Troseddwyr i ddatblygu canllawiau ar gyfer swyddogion yr heddlu ledled De Cymru sy'n cynnwys gweithdrefnau adnabod effeithiol o ran aelodau'r gymuned sydd ag anawsterau dysgu, a'u llwybr drwy'r system cyfiawnder troseddol, p'un a yw hynny drwy erlyniad neu atgyfeirio.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud gyda'r Swyddog Iechyd Meddwl a chynrychiolydd o'r Gwasanaethau Prawf yn cysylltu gyda'r Asiantaeth Genedlaethol Dysgu Troseddwyr i sicrhau bod pobl sydd â salwch meddwl, sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu, yn cael eu hadnabod yn gywir ac y caiff eu hanghenion eu diwallu. Rhagwelir y caiff y gwaith ei gwblhau ym mis Mai 2013.

Caiff pob achos sy'n ymwneud ag **aflonyddu pobl anabl ar-lein** ei flaenoriaethu gan yr Uned Troseddau Arbenigol. Mae'r Adran Troseddau Uwch-dechnoleg, yn benodol, wedi diwygio ei chofnod cyflwyno er mwyn cofnodi unrhyw gyflwyniadau sy'n ymwneud ag aflonyddu pobl anabl ar-lein gan y bydd hyn yn sicrhau y caiff achosion o'r fath eu blaenoriaethu'n briodol.

I wella ymddiriedaeth a hyder gyda'r gymuned anabl, mae PCSOs o bob un o'r URhSau wedi bod yn **ymgysylltu â grwpiau anabledd lleol** fel Pobl yn Gyntaf Caerdydd a Grwpiau Cydlyniant Cymunedol Lleol lle ceir cynrychiolwyr o'r gymuned anabl.

2 Trosedd Casineb

Dros y pedair blynedd nesaf byddwn yn parhau i gynyddu faint o bobl o'r categorïau a gaiff eu monitro sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau casineb / troseddau casineb, ond yn fwy penodol, byddwn yn datblygu mentrau penodol i gynyddu faint o Sipsiwn a Theithwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl drawsrywiol a phobl anabl, yn cynnwys pobl sydd â chyflwr iechyd meddwl, sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau / troseddau casineb. (Darpariaeth Weithredol)

Beth rydym yn ceisio ei gyflawni?

Cynyddu faint o bobl sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau/troseddau casineb ac yn benodol cynyddu faint o Sipsiwn a Theithwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl drawsrywiol a phobl anabl, yn cynnwys y rheini sydd â chyflwr iechyd meddwl, sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau/troseddau casineb.

Canlyniadau dymunol

Cynyddu faint o bobl sy'n rhoi gwybod am droseddau casineb.

Camau a Gymerwyd

Mae'r Uned Bartneriaeth mewn cydweithrediad â Rheoli Perfformiad, y Tîm Niche a Swyddogion Trosedd Casineb wedi datblygu proses ar Niche fel y **gellir cofnodi ac yna rheoli perfformiad o dan yr is-gategorïau Casineb Hiliol - Sipsiwn a Theithwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid; Casineb Crefyddol - Gwrth-Semitiaeth, Islamaffobia**. Gall Niche eisoes gofnodi Casineb Trawsrywiol a Chasineb Anabledd.

Caiff pob trosedd casineb **ei monitro a'i thasgio'n briodol** drwy gyfarfodydd rheoli dyddiol yn yr URhSau. Caiff yr ystadegau sy'n ymwneud â throseddau casineb a gofnodwyd rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2013 eu nodi

yn y Wybodaeth am Gydraddoldeb a gyhoeddir ar y wefan gorfforaethol ym mis Mehefin 2013.

Gwnaed **gwaith ymchwil ar Droseddau Casineb** yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gael ymchwil cynradd ac eilaidd ansoddol, i gynnwys safbwyntiau a phrofiadau dioddefwyr, cymunedau, swyddogion a staff er mwyn sefydlu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r rhesymau dros amrywiadau i lefelau'r digwyddiadau/troseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt i Heddlu De Cymru. O'r gwaith ymchwil lleol a chenedlaethol sydd wedi'i wneud, mae'n glir bod yr achos o dangofnodi Trosedd Casineb yn fater cymhleth gyda sawl ffactor yn pennu p'un a yw'r heddlu yn cael gwybod am y digwyddiad(au) ai peidio. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater yn lleol, nod Heddlu De Cymru yw adolygu'r hyfforddiant ar drosedd casineb a ddarperir ar hyn o bryd i bob aelod o staff a swyddogion y rheng flaen a nodi p'un a yw'n addas at y diben, sicrhau bod dulliau ar gyfer rhoi gwybod am droseddau casineb a'i gofnodi yn arwain at ymateb cyflym, ystyriol a chyson gan swyddogion a staff a hyrwyddo ymrwymiad yr Heddlu i ddioddefwyr trosedd casineb a'r ffyrdd gwahanol o roi gwybod.

Mae URS y Gorllewin wedi cael **adborth gan grwpiau anabledd lleol** yn dweud y gellid gwella pa mor hawdd ydyw i gysylltu gan nad ydynt wedi'i chael hi'n hawdd rhoi gwybod am drosedd casineb (nid oes digon o ganllawiau ar sut i roi gwybod amdano). O ganlyniad i hyn, mae URS y Gorllewin yn ystyried sut y gellir darparu canllawiau ar wefan yr Heddlu.

Mae URS y Dwyrain wedi cofnodi y ceir **cyfarfodydd fforwm hil aml-asiantaeth misol** i adolygu Digwyddiadau Trosedd Casineb a ffurfio camau gweithredu mewn partneriaeth. O fewn y grŵp hwn ceir Darparwyr Tai Caerdydd, Cymorth i Ddioddefwyr a Race Equality First. Mae'r URS hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd Grŵp Ffocws Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) misol ar gyfer ymgysylltiad/cydluniant parhaus â'r gymuned LHDT a'r cyfarfodydd chwarterol gyda Grŵp

Cydllynt Cymunedol i gynyddu ac ehangu aelodaeth.

Mae'r Uned Ymchwil Dros y Ffôn yn parhau i gysylltu â dioddefwyr trosedd casineb i **ganfod eu bodlonrwydd** ynghylch sut mae'r Heddlu wedi delio â'r digwyddiad. Caiff y wybodaeth hon ei throsglwyddo nôl i URhSau ei gweithredu pan fo angen.

At hynny, mae'r Uned Ymchwil Dros y Ffôn bellach yn defnyddio **gweithrediad arddangos y galwr** fel y gall derbynwyr weld y rhif ffôn sy'n ceisio cysylltu â hwy, ac mae hefyd wedi cyflwyno sgript neges llais i'w gadael ar gyfer y rheini sy'n cael eu cysylltu fel eu bod yn gwybod pam fod yr heddlu yn eu ffonio a'i fod er mwyn cymryd rhan yn arolwg yr heddlu - mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar adnoddau, gyda 100% o ddioddefwyr trosedd casineb yn cymryd rhan yn yr arolwg pan gysylltir â hwy eto.

Caiff trosedd casineb ei chynnwys fel rhan o'r broses adolygu anfonlonrwydd o fewn Plismona Tiriogaethol, lle caiff unrhyw swyddogion sy'n methu â sicrhau bodlonrwydd cwsmeriaid ei nodi drwy bwynt cyswllt sengl anfonlonrwydd yr adran neu'r URS. Hyd yma, nid oes unrhyw aelod o staff Plismona Tiriogaethol wedi cael ei nodi'n ddiffygiol yn y maes hwn.

Mae'r Adran Cyfiawnder a Phartneriaethau wedi datblygu **Strategaeth Trosedd Casineb Ddrafft a Chynllun Gweithredu Trosedd Casineb Drafft** sy'n cael eu diweddarau'n unol â datblygiadau sefydliadol diweddar, diweddariadau deddfwriaethol, Argymhellion Hidden in Plain Sight / Manifesto for Change y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Strategaeth a Chanllawiau Trosedd Casineb ACPO; Addewidion yr Heddlu MENCAP; "Herio, Adrodd, Atal: Cynllun y Llywodraeth i Daclo Troseddau Casineb."

Mae'r Adran Troseddau Arbenigol yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'i staff mewn perthynas â throedd casineb a'r cymorth sydd ar gael i gefnogi dioddefwyr. Mae gwaith wedi'i gwblhau eleni i sicrhau bod dolenni priodol ar unrhyw

bolisi ar dudalen amrywiaeth Llawlyfr Gweledol yr Heddlu a fydd yn ei dro yn rhoi mynediad i sawl dolen a fydd yn rhoi canllawiau ar amrywiaeth, materion sy'n ymwneud â'r gweithle a ffordd o fyw y mae trosedd casineb yn rhan arwyddocaol ohono.

Mae'r Adran Troseddau Arbenigol wedi cadw at ei hymrwymiad i weithredu Cydgysylltwyr Iechyd Meddwl ym mhob URS fel y gellir datblygu'r ddarpariaeth leol o ymgysylltiad priodol o fewn y gymuned gyda'r nod o annog pobl sydd â salwch meddwl i roi gwybod am ddigwyddiadau casineb. Mae strwythurau hefyd bellach ar waith i wella'r broses o reoli risg mewn perthynas â phobl sydd â salwch meddwl o fewn y gymuned, sy'n cynnwys cysylltu â'n hasiantaethau partner i ddatblygu mesurau diogelu.

Mae'r Adran Ymgysylltu â'r Gymuned wedi datblygu polisi a gweithdrefn yr Heddlu ar gyfer **Sipsiwn a Theithwyr** i sicrhau bod gan bersonél Heddlu De Cymru yr addysg a'r ddealltwriaeth o ddiwylliant ac arferion y grwpiau hyn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r ddogfen allan ar ymgynghoriad ar hyn o bryd gyda rhanddeiliaid allweddol allanol a mewnol (Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd, Gwasanaethau Addysg Teithwyr, Rheolwr Safle Cyngor Sir Caerdydd ar gyfer meysydd Drenwydd Gelli-farch a Rover Way, Swyddogion Trosedd Casineb URS y Dwyrain).

Mae Rheolwr y Rhawd yng Nghaerdydd yn mynd i faes Carafanau Drenwydd Gelli-farch yn rheolaidd i roi mynediad i breswylwyr y maes i Heddlu De Cymru a meithrin ymddiriedaeth a hyder gyda henoed y gymuned honno. Caiff rhif ffôn symudol Rheolwr y Rhawd ei arddangos yng nghyntedd swyddfa'r maes ac anogir preswylwyr i ffonio os byddant am roi gwybod am ddigwyddiad sy'n effeithio ar ansawdd eu bywydau neu am drafod hyn.

Sefydlwyd Drenwydd Gelli-farch Ddiogelach a bellach mae'r Tîm Plismona yn y Gymdogaeth, Swyddogion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Caerdydd, y Prosiect Sipsiwn a Theithwyr a

swyddogion addysg yn mynd i'r Fforwm. Caiff y materion sy'n effeithio ar breswylwyr yn uniongyrchol eu trafod fel rhan o ddull aml-asiantaeth.

Cynhaliodd Tîm Uwch Reolwyr URS y Gogledd gyflwyniad **trawsrywiol** o fewn eu cyfarfod tîm wythnosol. Cafwyd y cyflwyniad gan Hyfforddwraig Gymunedol, a hithau'n drawsrywiol ei hun, a eglurodd rai o'r materion y mae pobl Drawsrywiol yn eu profi o ddydd i ddydd, yn cynnwys aflonyddu ar sail trawsrywioldeb. Rhoddodd yr hyfforddiant gyfle i'r tîm o uwch reolwyr gydnabod yr anawsterau a wynebir gan bobl drawsrywiol, lle gellir osgoi llawer ohonynt gyda'r cymorth a'r ymwybyddiaeth gywir. Roedd y sesiwn hyfforddi yn ddefnyddiol iawn i'r cynrychiolwyr presennol a'r gobaith yw y caiff y cyfle ei roi i staff a swyddogion eraill yn yr URS yn y dyfodol.

Gweithiodd yr Adran Cyfiawnder a Phartneriaethau a'r Gwasanaethau Dysgu Datblygu mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron y llynedd i ddarparu cyfres o **sesiynau ymwybyddiaeth pedair awr a oedd yn canolbwyntio ar Ddwyn Troseddwy'r Trosedd Casineb o Flaen eu Gwell**.

Darparwyd chwe sesiwn yn y pedair URS ym mis Mehefin a mis Gorffennaf gyda dwy sesiwn arall wedi'u darparu ym mis Medi 2012.

Targedwyd y sesiynau at swyddogion a staff allweddol mewn Canolfannau URhSau, yn ogystal â Swyddogion Trosedd Casineb a swyddogion a staff arbenigol eraill sy'n ymwneud â'r gwaith o nodi, ymchwilio ac erlyn trosedd casineb.

Cynlluniwyd y sesiynau i godi ymwybyddiaeth o arfer effeithiol ar gyfer erlyn troseddau casineb yn llwyddiannus ac roeddent yn cwmpasu'r themâu canlynol:

- Nodi trosedd fel Trosedd Casineb.
- Y prawf tystiolaeth a'r prawf budd y cyhoedd
- Deddfwriaeth / diffiniadau allweddol trosedd casineb ac ystyried pryd y gall SI46 fod yn gymwys.

- Mesurau arbennig ar gyfer tystion sy'n agored i niwed neu sydd wedi'u dychryn.
- Llunio achosion trosedd casineb ar gyfer erlyniad.

Mae gan yr URS Ganolog **grŵp adolygu trosedd casineb misol** lle mae Prif Arolygydd - Gweithrediadau, Arolygydd Plismona Lleol, Arolygydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Swyddog Trosedd Casineb, VALREC a rhai partneriaid allweddol o'r grwpiau anabl a lleiafrifoedd ethnig yn bresennol. Mae hefyd yn cysylltu â'r Grŵp Cydlyniant Cymunedol a gadeirir gan y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol gyda phartneriaid strategol yn bresennol ac mae'n cefnogi Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr Diogelach.

Mae **gwella hygyrchedd y cyhoedd** i wasanaeth yr heddlu yn parhau i fod yn ddarn o waith y mae PCSOs yn delio ag ef yn effeithiol wrth wneud eu gwaith rhagweithiol yn eu cymunedau. Mae staff Canolfan Gwasanaethau'r Cyhoedd wrthi'n cyflawni hyfforddiant helaeth a fydd yn cwmpasu pob agwedd ar gysylltu â dioddefwyr a bydd pob aelod o staff yn y Ganolfan yn amlswyddogaethol ar ddiwedd y cwrs hyfforddiant 24 wythnos hwn. Mae mynediad i language line a chyfieithydd ar gael os bydd angen.

Trefnwyd sioe deithio o **ddyddiau Codi Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb** ledled yr URS. Gan ddefnyddio gorsaf symudol yr heddlu cymunedol, mae'r tîm ymgysylltu wedi gallu ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd a hefyd wedi rhoi cyfle i sefydliadau partner weithio gyda ni. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ym mis Mehefin gyda thros 150 o daflenni Trosedd Casineb a 200 o bosteri'n cael eu dosbarthu.

Mae Tîm Ymgysylltu'r Gorllewin hefyd yn gweithio gyda'r Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned Ethnig ar gyfer Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru gyda'r nod o **fagu hyder grwpiau Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid** ledled yr URS. Gan gydweithio, mae'r swyddogion yn mynd i ganolfannau galw heibio a gynhelir gan

City of Sanctuary and Cyrenians Wales Abertawe yn rheolaidd er mwyn helpu i fagu hyder a chodi ymwybyddiaeth o drosedd casineb a diogelwch tân.

Mae **DVD Trosedd Casineb** wedi'i ddatblygu gyda thros 20 o aelodau'r cyhoedd o gymunedau lleiafrifol yn siarad am eu profiadau personol a'u barn ar drosedd casineb. Mae aelodau TAWC Butterflies, Transgender in Wales, ceiswyr lloches o Ganolfan Cymunedol Affrica, Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig, Pobl yn Gyntaf Abertawe, Cyrenians Wales, LGBT Unity Project a Fforwm Queer Swansea yn helpu i godi ymwybyddiaeth o drosedd casineb ac yn **annog cymunedau Du a Lleiafrifol, Anabl ac LHDT yn ogystal â cheiswyr lloches a ffoaduriaid i roi gwybod am drosedd**. Lanswyd y DVD ym mis Tachwedd 2012.

Gwnaeth Tîm Ymgysylltu'r Gorllewin weithio'n agos gyda Pobl yn Gyntaf Abertawe a'u defnyddwyr gwasanaeth i ddylunio **Poster Trosedd Casineb ar sail Anabledd sy'n Hawdd ei Ddarllen** a noddwyd gan Ddinas a Sir Abertawe. Nod y poster yw codi ymwybyddiaeth o drosedd casineb ar sail anabledd ac i bobl wybod nad ydynt ar eu pen eu hunain a bod cymorth ar gael. Lanswyd y poster yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae wedi'i arddangos mewn canolfannau cymorth ledled Abertawe.

Mae Tîm Ymgysylltu'r Gorllewin yn mynd i'r **Ganolfan Cymunedol Affrica** yn Abertawe yn rheolaidd i ddileu rhwystrau rhwng yr heddlu a'r gymuned Affricanaidd, rhoi cyngor ac arweiniad a chodi ymwybyddiaeth o drosedd casineb.

Bellach mae gan rwydwaith LHDT Rhondda **bwynt cyswllt penodol** drwy swyddog yr heddlu yn URS y Gogledd, sydd hefyd wedi agor cyfrif **Twitter** at ddibenion gwella cyswllt/rhoi gwybod am droseddau. Mae hyn wedi'i hyrwyddo o fewn y gymuned ac mae'r cyfan wedi'i dderbyn yn dda.

Yn dilyn llofruddiaeth dyn oedrannus gydag anabledd dysgu, trefnodd URS y Dwyrain **sgyrsiau ar ddiogelwch personol ac atal**

troseddau gydag aelodau Pobl yn Gyntaf Caerdydd (sefydliad sy'n rhoi cymorth i bobl sydd ag anawsterau dysgu)

Mae cymorth wedi'i roi i Ben-y-bont ar Ogwr Ddiogelach, gan yr adran Cyfathrebu Corfforaethol, wrth iddi lansio ei **strategaeth cydlyniant cymunedol ac ymgyrch trosedd casineb** drwy eu helpu i'w hyrwyddo. Mae'r strategaeth yn amlygu pedair blaenoriaeth ar gyfer y fwrdeistref, sef: parchu gwahaniaethau, gwella mynediad, codi ymwybyddiaeth a deall cymdogaethau. Mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae Clymblaid Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd a Bridge CV ymhlith y rhai eraill.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd parafeddyg ei secondio am dri mis i weithio sifftiau yng Nghanolfan Gwasanaethau'r Cyhoedd i weithredu fel Cyngorydd Tactegol i ddyletswydd Arolygydd y Ganolfan mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r Gwasanaeth Ambiwylans a'r Heddlu, sy'n cynnwys materion **iechyd meddwl**. Gwnaed hyn fel cynllun peilot a welodd sawl mantais, gan gynnwys y gallu i helpu swyddogion yr heddlu gyda chymorth cyntaf dros yr awyr, darparu amseroedd amcangyfrifedig ar gyfer ambiwlansys a chyngor ar ble y gellir cyfeirio galwyr pe na allai'r heddlu na'r gwasanaeth ambiwlans ddelio â'r materion, er eu bod yn gysylltiedig ag iechyd. Mae'r parafeddyg yn parhau i'n helpu ar sail ad hoc hyd nes y gellir cytuno ar drefniadau tymor hwy.

Mae gan URS y Gogledd **Swyddog Cyswllt Iechyd Meddwl penodol** sydd wedi cyfrannu at hyfforddiant rheoli a chyfarwyddiadau sifftiau ac mae'n Bwynt Cyswllt Sengl i helpu Swyddogion Trosedd Casineb ar droseddau casineb lle roedd gan y dioddefwr salwch meddwl. Ymgysylltodd y Swyddog Cyswllt Iechyd Meddwl â gwasanaethau iechyd meddwl ac roedd yn gallu cyfeirio'r dioddefwr at y cymorth priodol a hwyluso apwyntiadau. Mae'r rôl hon wedi bod yn werthfawr a bellach mae tri Swyddog Iechyd

Meddwl arall wedi'u penodi i weithio yn URS y Gogledd, URS y Dwyrain ac URS y Gorllewin.

Yn yr URS Ganolog, ceir nifer o gyfarfodydd lleol lle caiff troseddau casineb eu trafod ac mae'r rhain yn cynnwys y cyfarfodydd Adolygu Trosedd Casineb Isadrannol bob yn ail mis, cyfarfodydd chwarterol Grŵp Cydlyniant Cymunedol y Fro, Grŵp Ffocws LHDT misol Caerdydd a'r Fro, cyfarfodydd Darparwr Gwasanaethau i Sipsiwn a Theithwyr chwarterol, a chyfarfodydd chwarterol y rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol hŷn gydag Age Cymru.

3 Stopio a Chwilio

Dros y pedair blynedd nesaf byddwn yn rhoi mentrau ar waith i archwilio canfyddiadau'r gymuned o bwerau Stopio a Chwilio ac yn defnyddio'r canlyniadau i godi ymwybyddiaeth swyddogion yr heddlu ymhellach o'r seiliau angenrheidiol ar gyfer Stopio a Chwilio (Darpariaeth Weithredol, Proses Sefydliadol)

Beth rydym yn ceisio ei gyflawni?

Sicrhau cydbwysedd gwell ar draws pob grŵp ethnig o ran Stopio a Chwilio - yn berthynol i ddefnyddiau eraill o bwerau'r heddlu.

Canlyniadau dymunol

Gwasanaeth heddlu cwbl hygyrch

Camau a Gymerwyd

Cynhaliodd Swyddogion Plismona yn y Gymdogaeth **grwpiau ffocws Stopio a Chwilio Lleol** gydag URS y Dwyrain ym mis Hydref a mis Tachwedd yng Ngholeg y Barri, y clwb 'Be Healthy' yn Grangetown, gyda Grŵp Benywod Mwslimaidd a Thîm Pêl-droed Ieuencid Somali. Roedd y mwyafrif yn deall yr angen ar gyfer arfer pwerau stopio a chwilio ond yn nodi'r diffyg o ran eglurhad clir ynghylch y rheswm dros chwilio fel y prif gŵyn. Bydd yr adborth hwn yn helpu i ffurfio hyfforddiant stopio a chwilio yn y dyfodol.

Mae Adran Dysgu a Datblygu'r Heddlu wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r agweddau seicometrig a all effeithio ar **sut mae swyddogion yr heddlu yn Ne Cymru yn arfer pwerau stopio a chwilio**. Roedd y gwaith maes yn ystyried personoliaeth seicometrig 50 o swyddogion o Dimau Plismona yn y Gymdogaeth, swyddogion ymateb a swyddogion tîm cymorth tactegol. Ar gyfer yr ymchwiliad hwn defnyddiwyd Holiadur Ffactor 15 15FQ+, adnodd academiaidd a ddefnyddir i fesur yr un ffactorau personoliaeth.

Roedd y canfyddiadau'n awgrymu

- bod swyddogion yn bennaf yn dangos cyflwr emosiynol digyffro, aeddfed ac apathetig.
- nad oedd swyddogion yn rhy garedig na pharchus, nac yn rhy ymosodol na phenderfynol.
- bod swyddogion yn tueddu i fod yn ffyddiog ac yn oddefgar
- bod swyddogion yn benodol yn ddiplomataidd, yn graff yn gymdeithasol ac yn bwylllog.

Ni fyddai'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod unrhyw ymddygiad anghymesur wrth stopio a chwilio ond bydd y canfyddiadau'n helpu i lywio anghenion hyfforddi yn y dyfodol.

Mae **ymwybyddiaeth a hyfforddiant Stopio a Chwilio** yn mynd rhagddo yn URS y Gogledd, wedi'i weithredu drwy ddarparu hyfforddiant pwrpasol i bob sarjant ym mhob rhan o'r URS. O fewn yr hyfforddiant hwn dysgir am effaith stopio a chwilio ar gymunedau gwahanol.

Mae cyflwyno'r defnydd o ddyfeisiau blackberry i gwblhau'r broses o **gofnodi stopio a chwilio** wedi parhau. Mae hyn yn sicrhau bod swyddogion yn cwblhau'r cofnod yn amserol ym mhresenoldeb, os yn bosibl, yr unigolyn sydd wedi'i stopio a'i chwilio. Mae prosesau newydd wedi'u cyflwyno i sicrhau y gall yr aelodau o'r cyhoedd hynny sydd am gael cofnod o'u hachos stopio a chwilio naill ai wneud cais ar-lein, mynd i orsaf yr heddlu neu drwy ffonio 101.

Mae **hyfforddiant dysgu o bell ar ddefnyddio pwerau stopio a chwilio** wedi'i ddatblygu'n genedlaethol ac mae ar gael i bob swyddog drwy wefan yr Heddlu. Mae'r hyfforddiant yn egluro'r pwerau, sut i ymddwyn ar y stryd a'r pwysigrwydd o egluro pam eich bod yn stopio ac yn chwilio. Ceir pwyslais ar ansawdd y cyfarfod ac mae swyddogion yn parhau i fynd ati i gwblhau'r cwrs. At hynny, ceir cwrs blackberry pwrpasol sydd hefyd ar gael sy'n egluro sut y gellir defnyddio'r ddyfais yn fwy effeithiol wrth gofnodi achosion o stopio a chwilio.

Mae'r Heddlu hefyd yn cynhyrchu **fideo** "know how" sy'n seiliedig ar senarios ac sy'n cyfuno dealltwriaeth o'r pwerau a gaiff eu harfer a'r defnydd o blackberry i gofnodi achosion stopio a chwilio. Ceir mewnbwn sylweddol ynghylch beth sy'n cyfrif fel sail briodol ar gyfer stopio a chwilio ac ynghylch pwysigrwydd sut rydym yn trin y rheini rydym yn eu stopio a'u chwilio. Disgwylir i'r fideo fynd yn fyw ym mis Ebrill 2013.

Datblygodd Tîm Arolygu'r Heddlu eitem ar gyfer mewnrwyd yr Heddlu i hysbysebu lansio datrysiad data symudol er mwyn helpu i **wella ymwybyddiaeth swyddogion** o sail stopio a dirymu'r gofyniad i gyflwyno copïau caled o ffurflenni. Mae wedi'i ailadrodd i swyddogion bod angen cofnodi gweithgarwch stopio a chwilio bob tro y ceir achos o stopio a chwilio. Gyda'r ddewislen ar gyfer rheswm dros chwilio a ffocws newydd ar stopio a chwilio a hyfforddiant ychwanegol ar NCALT, gall hyn adnewyddu dealltwriaeth swyddogion o stopio a chwilio a'r defnydd cyfreithlon o bwerau.

Mae ymwybyddiaeth a **hyfforddiant Stopio a Chwilio NCALT bellach yn orfodol** i bob swyddog.

Mae'r **dadansoddiad mwyaf diweddar o ffigurau stopio a chwilio** wedi'i wneud gan ddefnyddio ffigurau'r cyfrifiad mwyaf diweddar. Mae'r ffigurau'n awgrymu nad oes anghyfartaledd rhwng pobl gwyn a phobl lleiafrifoedd ethnig du sy'n cael eu stopio a'u chwilio gyda'r gymhareb yn 1:1. Fodd bynnag, dengys y ffigurau bod anghyfartaledd o hyd mewn perthynas ag aelodau'r cyhoedd gwyn a du gyda chymhareb 1:3 (h.y. rydych chi deirgwaith yn fwy tebygol o gael eich stopio os ydych chi'n ddu). Mae'r ffigurau hyn yn parhau i gael eu **monitro** gan Grŵp Stopio a Chwilio'r Heddlu ac yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol lle caiff y Grŵp Cynghori Annibynnol ei gynrychioli ac yn craffu.

Mae ystadegau stopio a chwilio a materion cysylltiedig yn **eitem agenda parhaus yng nghyfarfodydd y Grŵp Cydlyniant Cymunedol**. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth ac yn galluogi'r gymuned i graffu ar broses Heddlu De Cymru mewn perthynas â stopio a chwilio.

4 Hygyrchedd

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn gwerthuso ac yn datblygu'r ffyrdd y gall y cyhoedd gysylltu â ni.* Byddwn yn cynnwys ein cymunedau ac yn ymgysylltu â hwy ac yn defnyddio'r canlyniadau i roi mentrau ar waith yn benodol i ddiwallu anghenion mynediad pobl anabl, pobl drawsrywiol, pobl hŷn a phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. (Darpariaeth Weithredol, Proses Sefydliadol)

* dros y ffôn; siarad yn uniongyrchol â swyddog yr heddlu neu PCSO - drwy apwyntiad neu ar batrôl; yn bersonol yng ngorsafodd yr heddlu ym mhob rhan o'r Heddlu; drwy bwyntiau mynediad cymunedol symudol - cerbydau pwrpasol sy'n teithio o gwmpas yr ardal yn rhoi mynediad i gwsmeriaid ar garreg eu drws; ar y we; drwy lythyr neu e-bost; drwy wefannau Rhwydweithio Cymdeithasol.

Beth rydym yn ceisio ei gyflawni?

Bod y gorau am ddeall anghenion ein cymunedau ac ymateb iddynt gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl anabl, pobl drawsrywiol, pobl hŷn a phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Canlyniadau dymunol

Gwasanaeth heddlu cwbl hygyrch.

Camau a Gymerwyd

Nododd Pobl yn Gyntaf Abertawe nad oedd gwefannau a llenyddiaeth Heddlu De Cymru mewn **fformat Hawdd ei Ddarllen** ac felly na allai defnyddwyr y gwasanaeth ddefnyddio gwasanaethau Heddlu De Cymru yn hawdd.

Lluniwyd a chyhoeddwyd fersiwn **hawdd ei ddarllen** o Gynllun Cydraddoldeb Strategol Heddlu De Cymru gyda chymorth gan **Pobl yn Gyntaf Abertawe**. Mae Hawdd ei Ddarllen yn ymwneud â chyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n hawdd ei deall. Mae'n rhoi gwybodaeth sy'n bwysig ac yn ddefnyddiol, yn defnyddio geiriau byr a brawddegau byr, nid yw'n defnyddio jargon, mae'n egluro geiriau pan na ellir cael gwared ar

eiriau anodd ac yn defnyddio ffotograffau, lluniau a symbolau i egluro gwybodaeth. Mae Hawdd ei Ddarllen i bawb ond yn arbennig o ddefnyddiol i bobl sydd ag anhawster neu anabledd dysgu, pobl nad ydynt yn gallu darllen yn dda, pobl sydd â nam ar eu golwg, pobl hŷn a phobl sy'n siarad Saesneg fel ail iaith.

Mae URS y Gogledd yn parhau i ddatblygu ei chyfarfodydd PACT Byddar a ddechreuodd ym mis Mawrth 2011 ac sydd ers hynny wedi'u nodi fel arfer gorau gan yr Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona. Mae pobl ledled ardaloedd De Cymru, Gwent a Dyfed Powys yn mynd i'r cyfarfodydd a chânt eu cefnogi gan Gyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain a staff o Heddlu De Cymru. Mae'r PACT Byddar yn adnodd ymgysylltu hanfodol ar gyfer y gymuned fyddar sydd fel arall gydag ychydig iawn o ffyrdd o siarad â'r Heddlu. O ganlyniad i'r cyfarfodydd, mae cylchlythyrau bellach ar gael i'r gymuned gan yr heddlu, yn cynnwys gwybodaeth nodweddiadol a rhoddir cyngor ar ddiogelwch trosedd ym mhob cyfarfod. At hynny, mae'r gymuned fyddar wedi cael rhif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost y gallant anfon negeseuon testun a negeseuon e-bost di-argyfwng i adnodd penodol. Hefyd, mae gwasanaeth testun argyfwng wedi'i hyrwyddo drwy'r cyfarfodydd PACT.

Yn yr URS Ganolog, mae **cyfarfodydd PACT byddar cychwynnol y Barri** wedi'u derbyn yn dda. Ymhlith y camau gweithredu o un cyfarfod eleni mae gwella argaeledd cyfieithwyr yn amgylchedd dalfa'r heddlu yn ogystal â hyfforddi staff yr heddlu swyddi'r rheng flaen i ddefnyddio iaith arwyddion er mwyn cefnogi unigolion sy'n agored i niwed a gwella'r materion sy'n ymwneud â rhoi gwybod am droseddau a chyfathrebu.

Mae swyddog o'r Adran Diogelu'r Cyhoedd ar hyn o bryd mewn ymgynghoriad gyda'r **National Centre for Domestic Violence (NCDV)** yn Lloegr, gan na all gyflwyno ei gwasanaethau yng Nghymru oherwydd y goblygiadau o ran cost **darparu'n ddwyieithog**. O ganlyniad i hyn, mae'r swyddog, gyda chynrychiolydd o'r Uned

Diogelwch Menywod yng Nghaerdydd, wedi ymweld â'r NCDV i ystyried cyfleoedd i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â'r rhwystr iaith a sicrhau y ceir gwasanaeth o'r fath yng Nghymru.

Ar ôl cyfarfod â'r Grŵp Cyngori Annibynnol Strategol, **gwnaed adolygiad o fynediad gan gymunedau byddar/trwm eu clyw i'r gwasanaeth 101**. Nodwyd bylchau mewn hygyrchedd o ran bod y system gyfredol yn gofyn i'r galwr gael gafael ar yr heddlu lleol drwy rif cyswllt cenedlaethol sydd yna'n cysylltu ag 101 ar ran y galwr. Roedd hyn yn drafferthus ac yn araf. Gwnaed gwaith ymchwil gyda Heddluoedd eraill o ganlyniad i ganfyddiadau'r arolwg ond nid oedd unrhyw fentrau eisoes ar waith i ddatrys y broblem hon ynghylch hygyrchedd. Darparwyd ac ail-lansiwyd llinell pwynt mynediad sengl i Ganolfan Gwasanaethau'r Cyhoedd drwy'r peiriant **Minicom** cyfredol i symleiddio cyswllt di-argyfwng (01656 656980) gyda Gwefan newydd yr Heddlu ym mis Tachwedd 2012. Ar gyfer y rheini y mae'n well ganddynt yr hen system, bydd yn dal i fod ar gael. Mae Rheolwr yr Ystafell yn ymrwymedig i fynd i ragor o gyfarfodydd PACT Byddar er mwyn hyrwyddo'r broses well.

Roedd hyfforddiant Ymddygiad

Gwrthgymdeithasol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys hyfforddiant ar adnabod pobl sy'n agored i niwed (trawsrywiol, anabl, henoed). Bellach caiff pob galwad ei harchwilio ar gyfer cydymffurfiaeth a rhoddir adborth pan fo'n briodol.

Mae URS y Dwyrain wedi llunio Cylchlythyrau Plismona yn y Gymdogaeth Lleol, wedi'u cyfieithu i Gymraeg a Saesneg a phan fo'n bosibl, Arabaidd a Somali hefyd. Maent yn gofyn i breswylwyr gysylltu â hwy os oes ganddynt unrhyw bryderon lle gallai'r heddlu helpu ac mae hefyd yn ail-gadarnhau'r rhifau ffôn argyfwng a di-argyfwng. Drwy ddarparu'r cylchlythyrau hyn mewn sawl iaith, mae'n cynyddu'r hygyrchedd i wasanaeth yr heddlu ar gyfer y rheini lle nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Adran Troseddau Arbenigol wedi **adolygu'r holl ystafelloedd cyfweld cyfredol** ym mhob rhan o'r heddlu i sefydlu p'un a ydynt yn addas at y diben o ran cyfleusterau fel y gellir cael y dystiolaeth orau. Yn gyffredinol, roedd yr ymarfer cwmpasu yn gadarnhaol iawn a daeth i'r casgliad y gellid datrys y problemau hynny a nodwyd yn hawdd. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â mater ynghylch hygyrchedd a fydd bellach yn sicrhau bod **pobl o'r gymuned anabl yn cael mynediad anghyfyngedig i gyfleusterau Heddlu De Cymru**, fel yr ystafell cyfweld newydd ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed yng ngorsaf yr heddlu y Tyllgoed.

Mae'r adran Cyfathrebu Corfforaethol wedi datblygu ac uwchlwytho ffurflen ar-lein i'r cyhoedd ei defnyddio i gysylltu â'r Personél perthnasol o fewn Heddlu De Cymru a all ateb eu hymholiad neu wrando ar eu pryder.

Caiff cyfryngwyr eu hystyried ar gyfer sicrhau llwybr cyfathrebu effeithiol wrth ddelio ag unrhyw unigolyn sy'n agored i niwed.

5 Merched yn y Ddalfa

Dros y deuddeg mis nesaf byddwn yn sefydlu gwaelodlin bodlonrwydd/anfodlonrwydd ar gyfer profiad merched a gedwir yn y Ddalfa. Yna, bydd yr ymchwil hwn yn llywio'r broses o ddatblygu amcan cydraddoldeb strategol i gynllunio a gweithredu mentrau perthnasol i ddiwallu anghenion penodol merched a gedwir yn y Ddalfa. (Darpariaeth Weithredol)

Beth rdym yn ceisio ei gyflawni?

Diwallu anghenion penodol (yn cynnwys dangos parch ac urddas) merched a gedwir yn y Ddalfa.

Canlyniadau dymunol

Nodi bodlonrwydd/anfodlonrwydd merched a gedwir yn y Ddalfa.

Camau a Gymerwyd

Mewn ymgynghoriad â'r adran Gwybodaeth am Fusnes, cafwyd dadansoddiad o'r holl ferched a gedwir yn y ddalfa yn ardal Heddlu De Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/2012. Mae'r dadansoddiad hwn yn nodi materion fel oedran, meddwdod, cais am gyfreithiwr a'r math o drosedd. Ceir copi o'r dadansoddiad isod.

Merched yn y Ddalfa - 2011/12

PROFFIL OEDRAN			
Oedran Arestio - Cyfaint	Merched	Dynion	Cyfanswm Terfynol
10-17	891	3269	4160
18-20	734	4017	4751
21+	5099	24151	29250
Anhysbys	2	6	8
Cyfanswm Terfynol	6726	31443	38169

Oedran Arestio - %	Merched	Dynion	Cyfanswm Terfynol
10-17	13.2%	10.4%	10.9%
18-20	10.9%	12.8%	12.4%
21+	75.8%	76.8%	76.6%
Anhysbys	0.0%	0.0%	0.0%
Cyfanswm Terfynol	100.0%	100.0%	100.0%

Mae'r proffil oedran ar gyfer merched ychydig yn wahanol i ddynion - mae % uwch o ferched a gaiff eu harestio rhwng 10 a 17 oed ac mae canran ychydig yn is o ferched yn gyffredinol a gaiff eu harestio rhwng 18 ac 20 oed o gymharu â dynion.

MEDDWDOD			
Meddw - Cyfaint	Merched	Dynion	Cyfanswm Terfynol
NO	4607	21410	26017
YES	2119	10033	12152
Cyfanswm Terfynol	6726	31443	38169

Meddw - %	Merched	Dynion	Cyfanswm Terfynol
NO	68.5%	68.1%	68.2%
YES	31.5%	31.9%	31.8%
Cyfanswm Terfynol	100.0%	100.0%	100.0%

Mae'r lefelau meddwdod rhwng merched a dynion yn y ddalfa bron union yr un fath.

PRESENOLDEB CYFREITHIWR			
Cyfreithiwr yn Bresennol - Cyfaint	Merched	Dynion	Cyfanswm Terfynol
NO	5156	22510	27666
YES	1570	8933	10503
Cyfanswm Terfynol	6726	31443	38169

Cyfreithiwr yn Bresennol - %	Merched	Dynion	Cyfanswm Terfynol
NO	76.7%	71.6%	72.5%
YES	23.3%	28.4%	27.5%
Cyfanswm Terfynol	100.0%	100.0%	100.0%

Mae presenoldeb cyfreithiwr yn is ar gyfer merched yn y ddalfa nag ar gyfer dynion. Dim ond 23.3% o ferched a oedd gyda chyfreithiwr yn bresennol, o gymharu â 28.4% ar gyfer dynion.

Grŵp Trosedd yr Arestiad Cychwynnol

Mae'r tabl isod yn dangos y rheswm dros yr arestiad cychwynnol o'r unigolyn. Gall unigolyn yna fynd ymlaen i gael ei arestio am drosedd arall, ond dim ond yr arestiad cyntaf y mae'r tabl hwn yn ei gyfrif, h.y. os caiff unigolyn ei arestio am ddwyn o siop ac yna ceir cyffuriau yn ei feddiant, bydd yr ail arestiad yn cyfrif fel meddu ar gyffuriau.

Grŵp Trosedd yr Arestiad Cychwynnol - Cyfaint	Merched	Dynion	Cyfanswm Terfynol
Trais yn erbyn yr unigolyn	2139	9699	11838
Trosedd rhywiol	14	691	705
Lladrad	53	449	502
Byrgleriaeth o annedd	180	1529	1709
Byrgleriaeth o safle arall	50	766	816
Dwyn cerbyd modur	54	579	633
Dwyn o gerbyd modur	14	343	357
Lladrad arall	1474	3884	5358
Twyll neu ffugio	134	375	509
Difrod troseddol	296	1953	2249
Masnachu mewn cyffuriau	256	1197	1453
Trosedd arall sy'n gysylltiedig â chyffuriau	190	1310	1500
Trosedd hysbysadwy arall	246	1526	1772
Trosedd arall nad yw'n hysbysadwy	1626	7142	8768
Cyfanswm Terfynol	6726	31443	38169

Mae holiadur wedi'i ddatblygu a fydd yn helpu i **nodi profiadau ac anghenion merched a gedwir yn nalfa'r heddlu.**

Ers datblygu'r amcan cydraddoldeb, penderfynwyd na fyddai'n briodol ceisio cynnal arolwg gyda merched sy'n dal i fod yn nalfa'r heddlu neu sydd newydd eu rhyddhau gan y byddai canlyniadau'r arolwg yn debygol o fod yn llai gwrthrychol o ganlyniad i'w cyfnod diweddar yn y ddalfa. Felly, rhoddwyd ystyriaeth i naill ai gynnal arolwg dros y ffôn gydag aelodau Tîm Arolwg Bodlonrwydd Dioddefwyr neu drwy ofyn i garcharorion benywaidd diweddar gwblhau arolwg ysgrifenedig. Y bwriad yw cynnal yr arolwg tua mis ar ôl i'r merched adael dalfa'r heddlu.

Nid yw'r arolwg wedi'i gynnal eto ac felly nid oes dadansoddiad ar gael. Fodd bynnag, y bwriad yw cynnal yr arolwg ym mis Mehefin 2013.

6 Cydraddoldeb LHD

Gan ddefnyddio asesiad Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2012 fel gwaelodlin, byddwn yn parhau i ysgogi cydraddoldeb tueddfryd rhywiol yn y gweithle mewn perthynas ag arweinyddiaeth, polisi, hyfforddiant, monitro, datblygu gyrfa a datblygu rheolwyr ac yn canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â staff a'n grŵp rhwydwaith cefnogi staff LHD. (Pobl a Diwylliant)

Beth rydym yn ceisio ei gyflawni?

Parhau i ddatblygu amgylchedd lle gall pobl ffynnu a bod â hyder yn Heddlu De Cymru i fod yn nhw eu hunain, a chyfrannu'n llawn i sicrhau cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd Heddlu De Cymru.

Canlyniadau Dymunol

Mwy o bobl LHDT agored o fewn y sefydliad sy'n adlewyrchu cymunedau De Cymru, a thrwy hynny'n galluogi'r Heddlu i fod y gorau am ddeall anghenion ein Cymunedau ac ymateb iddynt. At hynny, ymgysylltu fwy gyda staff LHD.

Camau a Gymerwyd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Rhwydwaith Staff Hoyw wedi gwneud ymrwymiad i sicrhau bod pob aelod o'r Rhwydwaith yn cael cynnig **hyfforddiant a chyfleoedd datblygu** pan fônt yn codi ac i hyrwyddo Heddlu De Cymru fel dewis gyflogwr. Ym mis Mawrth rhoddwyd hyfforddiant i saith aelod o'r Rhwydwaith Staff Hoyw a hwyluswyd gan siaradwr cymhellol enwog. Roedd yr hyfforddiant yn cwmpasu darbwyllo a chyd-drafod, delio â phwysau, siarad yn gadarnhaol a herio ymddygiad gwahaniaethol. At hynny, aeth nifer o aelodau ar gwrs mewnol Sgiliau Cyflwyno ac roedd lleoedd ar gael i aelodau'r Rhwydwaith

ar Raglen Arweinyddiaeth Gweithredu Cadarnhaol cydweithredol Cymru Gyfan.

Mae'r Rhwydwaith Staff Hoyw hefyd wedi noddi hysbyseb yr Heddlu yn Fyne Times i ddangos i'r cymunedau LHD bod Heddlu De Cymru yn **ddewis gyflogwr ar gyfer pobl LHD**.

Mae Rhwydwaith Staff Hoyw yr Heddlu yn gweld y fantais o weithio gyda grwpiau cenedlaethol ac wedi penodi **Cydgysylltydd Cymdeithas Cenedlaethol yr Heddlu Hoyw** i weithredu fel 'Pwynt Cyswllt Sengl' rhwng Heddlu De Cymru a Chymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Hoyw. Mae Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Hoyw yn bodoli i weithio tuag at roi cyfle cyfartal i gyflogaion hoyw gwasanaeth yr heddlu, rhoi cyngor a chymorth i gyflogaion hoyw gwasanaeth yr heddlu a hyrwyddo cydberthnasau gwell rhwng gwasanaeth yr heddlu a'r gymuned hoyw.

Gweithiodd y Rhwydwaith yn agos gyda'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth ddatblygu **Llyfryn Mis Hanes LHDT** a hyrwyddwyd ym mis Chwefror 2013 ac a oedd ar gael i holl bersonél Heddlu De Cymru. Roedd y llyfryn yn cynnwys gwybodaeth am gyflawniadau allweddol gan bobl LHD yng Nghymru, grwpiau cymorth Trawsrywiol a Deurywiol lleol, Modelau Rôl LHD yr Heddlu, rôl Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall a'r cymorth a gynigir i bob aelod o staff gan y Rhwydwaith Staff Hoyw.

Mae'r Rhwydwaith wedi parhau i **gefnogi** aelodau'r Rhwydwaith a'r bobl nad ydynt yn aelodau mewn perthynas â materion LHD, yn cynnwys 'bod yn agored'.

Mae **Gwybodaeth i Staff** a gyhoeddwyd ar fewnwyd yr Heddlu neu'n y cylchgrawn staff a digwyddiadau staff sy'n gysylltiedig ag LHD wedi cynnwys cyfeirio staff at y Rhwydwaith Staff Hoyw i gael cyngor ac arweiniad mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag LHD. At hynny, fel y disgrifir uchod, cynhyrchwyd llyfryn staff Mis Hanes LHDT a oedd yn cynnwys neges gan Gadeirydd y Rhwydwaith Staff Hoyw a dau Fodel Rôl LHD Heddlu De Cymru a fanteisiodd ar y cyfle i hyrwyddo gwaith y Rhwydwaith.

Mae'r **Rhwydwaith Staff Hoyw hefyd yn cael ei hysbysebu fel rhan o becyn sefydlu recriwtiaid newydd** yn y sefydliad. Anfonir taflen atynt cyn iddynt ymuno, yn rhoi gwybod iddynt am y Rhwydwaith a'r cymorth a gynigir, yn cynnwys manylion cyswllt cydgysylltydd staff LHD penodol. Mae gan bob personél cyfredol Heddlu De Cymru fynediad i dudalennau gwe'r Rhwydwaith ar fewnrwyd yr Heddlu. Caiff y tudalennau gwe hyn eu rheoli a'u diweddarau gan aelodau'r rhwydwaith.

Gwnaeth Cadeirydd y Rhwydwaith Staff Hoyw gyflwyniad i'r Adran Troseddau Arbenigol y llynedd ar waith y Rhwydwaith gyda'r gobaith o ymgysylltu ymhellach ar faterion LHD wrth iddynt godi.

Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda rhwydweithiau LHD yr Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig a Heddlu Dyfed Powys at y diben o **rwydweithio ac ystyried cydweithio** ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. At hynny, unodd y Rhwydwaith ei adnoddau â thri Rhwydwaith Cefnogi Staff arall o fewn Heddlu De Cymru (y Gymdeithas Heddlu Du, y Rhwydwaith Galluogi Staff a'r Gymdeithas Heddlu Benywaidd) i gynnig hyfforddiant i aelodau a fyddai'n helpu i ddatblygu eu gyrfaoedd.

Cynhaliodd y Rhwydwaith etholiadau yn 2012 a phenodwyd Cadeirydd a Chydgyssylltydd Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Hoyw a allai gynnig **arweinyddiaeth ffres**. Yn ogystal â hyn, gwnaeth hefyd ailstrwythuro'r Pwyllgor Gweithredol ac mae wedi penodi'r rolau canlynol: Cyfathrebu/Marchnata, Cymdeithasol/Lles, Ysgrifennydd Aelodaeth, TGCh, Cyllidebau. Mae hyn wedi **gwella gwydnwch a gweithrediad y grŵp**.

Cafodd y Rhwydwaith nifer o aelodau newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chafodd hefyd aelodau cyswllt newydd ar ôl hyrwyddo **Cynllun Straight Ally** ffurfiol ym mis Medi 2012. Mae cefnogaeth gan reolwyr, cydweithwyr a chleientiaid i staff LHD yn hanfodol os byddant am fod yn gyfforddus yn bod yn nhw eu hunain yn

y gwaith ac mae'r Cynllun Straight Ally, sy'n rhoi logo Straight Ally i aelodau cyswllt ei ddefnyddio yn eu llofnodion e-bost, wedi bod yn ffordd y gellid arddangos y gefnogaeth hon i bawb, yn cynnwys staff LHD nad ydynt yn 'agored' eto.

Er nad yw'r Rhwydwaith Staff Hoyw wedi datblygu strategaeth **gyfathrebu** ffurfiol, mae wedi ceisio sicrhau y cysylltir â phob un o'u haelodau'n rheolaidd, gan roi gwybod iddynt am unrhyw newyddion, digwyddiadau, dyddiadau cyfarfodydd a chanlyniadau, a chyfleoedd datblygu. Mae hefyd wedi anfon posteri a chardiau post i URhSau eu harddangos i hyrwyddo'r rhwydwaith. Caiff gwefan fewnol y Rhwydwaith ei diweddarau'n rheolaidd gyda manylion am newyddion, digwyddiadau, dyddiadau cyfarfodydd, gwybodaeth am bolisiau ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n gysylltiedig ag LHD.

Er mwyn hyrwyddo Heddlu De Cymru fel dewis gyflogwr ar gyfer staff LHD a rhannu arfer da, mae'r Rhwydwaith wedi sicrhau **cynrychiolaeth mewn nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol**, fel Cynhadledd Gweithle Stonewall, Digwyddiad Gweithle Stonewall Cymru, Seminar Fonitro Stonewall ac Ymgyrch 'It Gets Better' Stonewall (lle mae dau aelod o staff yn adrodd eu straeon am fod yn 'agored' a fydd yn cael eu cynnwys mewn fideo YouTube).

Hyrwyddodd y Rhwydwaith Staff Hoyw Arolwg Staff 2013 Stonewall i staff LHD yr Heddlu drwy'r fewnrwyd fel y gellid cael barn pob aelod o staff LHD, yn cynnwys y rheini nad ydynt yn 'agored' ac nad ydynt yn aelodau o'r Rhwydwaith. Bydd barn gytbwys yn helpu'r Heddlu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella yn fwy cywir a chymryd camau ychwanegol i hybu cydraddoldeb o ran tueddfryd rhywiol yn y gweithle os bydd angen. Nododd yr **adborth** o'r arolwg hwn bod canran ymatebwyr yr arolwg o Heddlu De Cymru sy'n dweud eu bod yn agored ynghylch eu tueddfryd rhywiol yn arwyddocaol is na chyfartaledd y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle. Ar gyfer ymatebwyr sy'n agored ynghylch eu tueddfryd

rhywiol gyda rhai cydweithwyr, maent hefyd yn debygol o fod yn agored gyda rheolwyr. Mae'n debygol nad yw'r ymatebwyr sy'n nodi nad ydynt yn agored ynghylch eu tueddfryd rhywiol gyda rheolwyr yn agored o gwbl. Bydd y Rhwydwaith Staff Hoyw a'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth bellach yn ystyried pa gamau gweithredu penodol y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r tueddiadau a amlygir yng nghanlyniadau'r arolwg.

Mae'r Gwasanaethau Dysgu a Datblygu wedi ymgysylltu â'r Rhwydwaith Staff Hoyw eleni i nodi sut y gallant **wella gwasanaethau i Heddlu De Cymru a staff LHD** yn gyffredinol.

Defnyddir **senarios sy'n gysylltiedig ag LHD** ar nifer o gyrsgiau hyfforddiant ar amrywiaeth i hyrwyddo materion sy'n gysylltiedig ag LHD i staff, herio ystrydebau a gwahaniaethu a datblygu dealltwriaeth o gydraddoldeb ar sail tueddfryd rhywiol.

Ym mis Mehefin 2012, **aeth y Prif Gwnstabl i un o gyfarfodydd allweddol y Rhwydwaith i ddangos ei gefnogaeth i'r grŵp**. At hynny, agorodd Prif Swyddogion y sesiynau **Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o LHD** eleni a hwyluswyd gan Stonewall ym mis Medi a mis Tachwedd ac a oedd yn ceisio sicrhau bod rheolwyr, Sarjants ac Arolygwyr yn deall materion sy'n gysylltiedig â rheoli staff a swyddogion LHD yn effeithiol.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi dangos ymrwymiad parhaus i gydraddoldeb LHD drwy gyfres o **bodlediadau, blogiau a chyfathrebiadau â staff** ar gyfer digwyddiadau i gynnwys y Diwrnod Cenedlaethol yn Erbyn Homoffobia (IDAHO) pan gafodd baiŵns lliwiau'r enfys eu rhyddhau yn y Pencadlys i gofio am y rheini sydd wedi marw oherwydd trosedd casineb ar sail homoffobia. Cafodd yr araith ar gyfer IDAHO ei huwchlwytho i YouTube. At hynny, mae'r Prif Gwnstabl wedi ysgogi'r holl dîm o brif swyddogion i gymryd mwy o ran yn yr agenda hwn. Cafodd ei gydnabod am ei ymrwymiad i staff LHD a'i rôl fel Pencampwr LHD yr Heddlu, drwy gel ei enwi fel

Pencampwr Gweithle 2013 Stonewall

Cymru, yn dilyn enwbiad gan Rwydwaith Staff Hoyw yr Heddlu.

Mae'r tîm Cynhyrchu Cyfryngau o fewn yr adran Cyfathrebu Corfforaethol, wedi gweithio'n agos gyda'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Rhwydwaith Staff Hoyw i recordio cyfweiliad sydd i'w ddefnyddio ar fewnwyd yr Heddlu i hyrwyddo'r Diwrnod BiVisibility (23ain Medi) ac mae hefyd wedi cynhyrchu nifer o **ffilmiau byr i gefnogi IDAHO**. Defnyddiwyd y rhain yn fewnol a chawsant hefyd eu huwchlwytho i sianel YouTube SWPTV Heddlu De Cymru.

Hysbysebodd Adran Plismona Tiriogaethol yr Heddlu eu swyddi gwag gyda'r Rhwydweithiau Cefnogi Staff, yn cynnwys y Rhwydwaith Staff Hoyw, y llynedd, i **ddangos ei chefnogaeth a'i hymrwymiad i staff o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn cynnwys LHD**, a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd.

Mae'r Rhwydwaith Staff Hoyw wedi bod yn ystyried ffyrdd o hyrwyddo, cefnogi a helpu staff a swyddogion LHD ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae wedi sefydlu rôl y **Swyddog Lles** a fydd yn arwain ar bob gweithgarwch cefnogi ar gyfer grŵp y rhwydwaith. Mae'r Swyddog Lles yn aelod o bwyllgor gweithredol y Rhwydwaith Staff Hoyw ac ar gael i aelodau o staff LHD sydd angen cymorth gyda materion sy'n ymwneud â'r gwaith, fel cwynion neu weithdrefnau disgyblu.

Yn ogystal â llunio llyfryn staff ar gyfer y Mis Hanes LHDT, gweithiodd yr Heddlu gyda Phencampwyr Amrywiaeth Stonewall eraill i gynnal **nifer o ddigwyddiadau sydd ar agor i bob aelod o staff eu mynychu**. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys prif ddigwyddiad a oedd yn cael ei gynnal yn Neuadd Ddinesig Caerdydd lle cafwyd cyflwyniadau gan Stonewall Cymru, Rhwydwaith LHDT Cyngor Caerdydd a Show Racism the Red Card. Hefyd, cafwyd Arddangosfa 'Pink Portrait' ac arddangosfa o lenyddiaeth LHD yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd a noswaith Ffilmiau Gwobr IRIS lle dangoswyd detholiad o ffilmiau byr o Wyl Gwobrau Iris 2012.

Gall pob aelod o staff Canolfan Gwasanaethau'r Cyhoedd weld **sleid dreigl barhaol ar Fwrdd Briffio'r Ganolfan** sy'n hyrwyddo'r Rhwydwaith Staff Hoyw ac yn annog bod yn agored i'r rheini sydd am fod. Mae hyn yn helpu Rheolwyr y Ganolfan i fod y gorau am ddeall anghenion ein staff a'n swyddogion LHD ac ymateb iddynt.

Lansiwyd **Fforwm LHDT Bae Abertawe** gan Dîm Ymgysylltu â'r Gymuned y Gorllewin ym mis Chwefror 2012 er mwyn helpu rhwydweithio a chysylltu rhwng grwpiau LHDT yn ardal Orllewinol Heddlu De Cymru. Nod y fforwm yw galluogi pobl sy'n gweithio ym maes cydraddoldeb LHDT i gyfarfod bob yn ail mis a rhannu arfer gorau, straeon newyddion da ac yn bwysicaf, rhoi cyfle gwych i bobl rwydweithio a chydweithredu. Ers sefydlu'r fforwm am y tro cyntaf mae wedi mynd o nerth i nerth ac mae ganddo bellach gynrychiolwyr o 24 o sefydliadau lleol gwahanol sy'n cydweithio i hyrwyddo cydraddoldeb Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.

Mae'r Rhwydwaith Staff Hoyw yn **cysylltu â sefydliadau eraill** i rannu a throsglwyddo gwybodaeth berthnasol a allai effeithio ar faterion LHD, ac yn rhoi'r cyfle am ymgynghoriad pan fo'n gymwys.

At hynny, **ymgynghorir â'r Rhwydwaith Staff Hoyw** mewn perthynas â pholisïau newydd a pholisïau diwygiedig gyda'r nod o sicrhau na fyddent yn cael effaith andwyol ar bobl LHD. Rhoddir unrhyw adborth yn uniongyrchol i luniwr y polisi ei ystyried a gwneud addasiadau i'r polisi pan fo'n briodol. Eleni, mae'r Rhwydwaith Staff Hoyw wedi rhoi cyngor ac adborth ar y Polisi Cyflwyniad Cyhoeddus, y Cynllun 'Patrol Along', y Polisi Rhwydweithio Cymdeithasol a'r gweithdrefnau yn y Ddalfa.

Datblygwyd yr amcan cydraddoldeb ar sail LHD sy'n rhan o bum amcan sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol, yn cynnwys Rhwydwaith Staff Hoyw yr Heddlu.

Caiff **dathliadau ymgysylltu â'r gymuned LHD a arweinir gan URS**, fel Mardi Gras Caerdydd a

Pride Abertawe eu cynllunio mewn ymgynghoriad â'r Rhwydwaith Staff Hoyw a gynrychiolir yn y grŵp cynllunio. Anogir pob aelod o staff, yn cynnwys staff LHD i fod yn bresennol a chymryd rhan yn y digwyddiadau hyn.

Gwahoddir Cadeirydd y Rhwydwaith Staff Hoyw i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd chwarterol y **Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol**, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr a Rennir ar gyfer yr Adran Adnoddau Dynol, a chaiff hefyd ei wahodd i gyfarfodydd chwarterol y **Bwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol** a gadeirir gan y Prif Gwnstabl. Mae bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r Rhwydwaith ddylanwadu ar weithgarwch cydraddoldeb a hyrwyddo eu llwyddiannau eu hunain.

Mae'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn dosbarthu adroddiad diweddarau mewnol chwarterol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i bob pencampwr amrywiaeth o fewn yr Heddlu fel y gallant ei ddosbarthu yn ôl y gofyn. Mae rhan o'r adroddiad hwn yn cynnwys mewnbyn gan y Rhwydwaith Staff Hoyw o'r wybodaeth y mae am ei rhannu gyda staff yr Heddlu.

Cynhelir **Cynadleddau Achosion Staff** gyda'r Adran Safonau Proffesiynol a Phennaeth yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth bob chwarter gyda chynrychiolwyr o'r rhwydweithiau cefnogi staff, yn cynnwys y Rhwydwaith Staff Hoyw.

Gwnaeth Heddlu De Cymru gais am Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall am y 7fed mlynedd yn olynol a dringo pum lle o gymharu â safle llynedd, gan fod y **18fed yn 100 o Gyflogwyr Gorau Prydain yn 2013**, a'r 4ydd yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith Staff Hoyw ei hun wedi ennill **"Star Performer Network Group"** i gydnabod ei gyflawniadau a'i weithgareddau, a sut mae'n cysylltu â'r sefydliad ehangach. Mae'r wobwr yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir yn y cais am y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle, ac yn ystyried meini prawf fel maint yr aelodaeth weithredol, yr effaith ar y

sefydliad ar y cyfan, cefnogaeth i unigolion - yn cynnwys datblygu gyrfa, a ffyrdd arloesol o gefnogi staff ac ymgysylltu â hwy.

Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod mantais **monitro amrywiaeth** yn y gweithle. Ym mis Mawrth 2009, datgelodd 62% o staff Heddlu De Cymru a 41% o swyddogion Heddlu De Cymru eu tueddfryd rhywiol i'r sefydliad. Ym mis Gorffennaf 2012, roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 86% o staff a 90% o swyddogion.

Mae'n bleser gan Heddlu De Cymru ymgysylltu â chymunedau LHDT yn **Pride Abertawe**, sef y dathliad blynyddol o gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn cymunedau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Abertawe a'r cyffiniau. Mae'r digwyddiad yn helpu i ysbrydoli'r rheini sy'n bresennol i weithredu yn erbyn gwahaniaethu cymunedau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) a chaiff ei gynnal ar ddydd Sadwrn olaf pob mis Mehefin. 2012 oedd 4ydd digwyddiad Pride Abertawe ac roedd dros 4500 o bobl LHDT yn bresennol, gan gynnwys eu ffrindiau a'u teulu strê. Mae Pride Abertawe yn denu sylw'r cyfryngau o'r wasg genedlaethol hoyw, newyddion BBC rhanbarthol a phapurau newydd lleol.

Roedd gŵyl amrywiaeth fwyaf Cymru, sef **Mardi Gras Caerdydd**, yn ôl eto ar 1af Medi 2012; yn fwy ac yn well nag erioed o'r blaen. Agorwyd y digwyddiad gan Brif Gwnstabl Cynorthwyol Jukes o Heddlu De Cymru ac roedd strydoedd Dinas Caerdydd yn llawn lliw wrth i filoedd o bobl droi fyny i ddigwyddiad Coopers Field a pharêd cyntaf erioed y Mardi Gras drwy Ganol y Ddinas i hyrwyddo'r gymuned LHDT a'i chefnogi; yn ogystal â chael diwrnod allan gwych.

Wedi'i gefnogi gan Heddlu De Cymru, roedd cannoedd o aelodau'r cyhoedd ar y stryd yn cyfarch yr arddangosfa a oedd yn ceisio amlygu hawliau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LHDT) yng Nghymru.

GWEITHREDU CADARNHAOL

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn galluogi sefydliadau i weithredu'n fwy cadarnhaol.

Mae'r term 'gweithredu cadarnhaol' yn cyfeirio at amrywiaeth o fesurau a mentrau datblygu y gall cyflogwyr eu defnyddio'n gyfreithlon er mwyn helpu pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gystadlu am swyddi yn gyfartal ag ymgeiswyr eraill. Mae wedi'i gynllunio i greu maes chwarae lefel fel y gall grwpiau sydd wedi bod dan anfantais yn hanesyddol gystadlu yn gyfartal am swyddi, neu fynediad i wasanaethau ac ati. Gall gynnwys hysbysebu mewn lle neu gyhoeddiad penodol i annog ceisiadau gan bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol na fyddent o bosib wedi gwneud cais am swydd benodol yn y gorffennol. Gall hefyd gynnwys darparu hyfforddiant ychwanegol i helpu rhywun ddangos yn fwy effeithiol pa sgiliau y byddent yn eu cyflwyno i'r rôl, neu sicrhau rhwydweithiau cefnogi neu addasu arferion gweithio.

Mae'r 'mesurau cydbwysu' hyn yn adlewyrchu'r posibilrwydd bod angen arfer ymagwedd a dulliau annog gwahanol mewn rhai achosion er mwyn sicrhau canlyniad teg. Mae'n hanfodol y caiff tangynrychiolaeth ei sefydlu'n glir cyn Gweithredu'n Gadarnhaol. Nid yw'r math hwn o fesur cydbwysu'r un fath â Gwahaniaethu Cadarnhaol. Mae'n gymwys i geisiadau allanol a mewnol.

Mae sawl mesur gweithredu cadarnhaol wedi'u harfer dros y flwyddyn ddiwethaf, ym mhob rhan o'r Heddlu. Ymhlith y gweithgarwch gweithredu cadarnhaol a amlygwyd mae'r canlynol:

Cafodd y cynllun peilot ar gyfer **Rhaglen Arweinyddiaeth Gweithredu Cadarnhaol Cymru Gyfan** ei gyflwyno ym mis Mehefin. Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at aelodau o bersonél Heddlu De Cymru o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, hyd at a chan gynnwys rheng Arolygydd neu'r cyfwerth o ran Staff yr Heddlu. Dyma'r fenter gweithredu cadarnhaol gynhwysol gyntaf i fod ar gael i bob swyddog ac aelod o staff o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel rhan o gydweithredu rhwng Heddluoedd De Cymru. Darparwyd y rhaglen

ddysgu gyfunol dros 3 diwrnod a chafodd ei rheoli gan 7 modiwl gyda nodau penodol. Mae'r modiwlau hyn fel a ganlyn:

MODIWL 1

Sylfaen - Gweithredu Cadarnhaol

MODIWL 2

Hunanymwbyddiaeth ac Arweinyddiaeth Bersonol

MODIWL 3

Arweinyddiaeth Bersonol a Brandio

MODIWL 4

Cyfathrebu, Pendantrwydd a Darbwyllo

MODIWL 5

Mentora, Hyfforddi a Rhwydweithio

MODIWL 6

Dysgu Gweithredu

MODIWL 7

Camau Nesaf a Datblygu Gyrfa

Caiff ymyriadau hyfforddi un i un cyn ac ar ôl y cwrs hefyd eu cynnwys fel rhan o'r rhaglen, yn ogystal â chyfleoedd i gynrychiolwyr ddod at ei gilydd ar ôl y rhaglen fel rhan o Gyfresi Dysgu Cadarnhaol.

Gweithiodd y tîm Adnoddau Cyflogaion yn agos gyda Swyddog Gweithredu Cadarnhaol yr Heddlu i gynnal **digwyddiadau Ymgysylltu â Gweithredu Cadarnhaol** ar gyfer ymgyrch recriwtio PCSOs 2012 gyda grwpiau o gymunedau lleiafrifol fel grŵp LHDT a Chanolfan Gymunedol Affrica er mwyn hyrwyddo Heddlu De Cymru fel dewis gyflogwr a gwella amrywiaeth y gweithlu. Mae digwyddiadau tebyg wedi dilyn mewn cydweithrediad â'r Gymuned Somali yng Nghaerdydd ac URS y Dwyrain i annog aelodau'r gymuned Somali i wneud cais i ymuno â Heddlu De Cymru. Cafwyd nifer o gyflwyniadau gan gydweithwyr cyfredol du ac o leiafrifoedd ethnig ar eu profiadau o weithio i Heddlu De Cymru ynghyd â chyflwyniadau ar y mathau o swyddi sydd ar gael, gan gynnwys gweinyddwyr, Gweithredwyr Canolfan Gwasanaethau'r Cyhoedd, Swyddogion yr

Heddlu, PCSOs a Gwirfoddolwyr.

Hysbysebwyd y broses recriwtio allanol ar gyfer ymgyrch PCSOs 2012 yn benodol at ddibenion gweithredu cadarnhaol, h.y. ddim yn y cyfryngau lleol. Cymerwyd camau gweithredu cadarnhaol i godi ymwybyddiaeth a darparu cymorth ac arweiniad i gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ledled ardal yr heddlu.

Cynhaliwyd un ar ddeg o ddigwyddiadau Gweithredu Cadarnhaol o fewn yr heddlu, 3 yr un yn URS y Dwyrain, y Gorllewin a'r Gogledd, a 2 yn yr URS Ganolog, gyda 253 o bobl yn bresennol i gyd. Yna, cafwyd 112 o geisiadau (dros 44% o'r rhai a oedd yn bresennol) gan y rheini a oedd yn y digwyddiadau, sy'n cynrychioli 8.07% o'r holl ymgeiswyr. Roedd 16.07% o'r ymgeiswyr hyn yn llwyddiannus yn y broses recriwtio hon o gymharu â 14.90% o ymgeiswyr nad oeddent yn y digwyddiadau Gweithredu Cadarnhaol.

Chwaraeodd Tîm Ymgysylltu â'r Gymuned Gorllewin Heddlu De Cymru rôl allweddol yn y gwaith o drefnu **digwyddiad Transgender Sparkle** cyntaf Cymru ddydd Sadwrn 17eg Tachwedd mewn partneriaeth â Tawe Butterflies. Cynhaliwyd y digwyddiad ym Mrangwyn Hall, Abertawe ac roedd yn llwyddiant ysgubol gan ddenu dros 500 o bobl o bob rhan o'r sir.

Roedd Prif Gwnstabl Peter Vaughan yn bresennol yn y digwyddiad gydag uwch reolwyr ac aelodau'r cabinet o Gyngor Sir Abertawe, yn cynnwys y dirprwy arweinydd, Christine Richards. At hynny, roedd 40 o stondinau ar gyfer y diwrnod o nifer o sefydliadau, yn cynnwys Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Nod y digwyddiad oedd hyrwyddo cydlyniant ac integreiddio cymunedol rhwng y grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Roedd yn arddangosfa glir o ddiddordeb pobl i ddysgu mwy am y gymuned drawsrywiol, ac mae'n amlygu'r ymdrechion i sicrhau lleoedd diogel a chefnogaeth i'r Gymuned Drawsrywiol.

Dethlir **Dydd Cofio Trawsrywedd** ar 20fed Tachwedd bob blwyddyn i gofio am y rheini a gafodd eu lladd oherwydd casineb neu ragfarn ar sail trawsrywedd a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o droseddau casineb yn erbyn pobl drawsrywiol ac i godi ymwybyddiaeth o hyn cafod baneri Trawsffobia eu harddangos yng Ngorsaf yr Heddlu Canol Abertawe a Chanolfan Ddinesig Abertawe.

Eleni, mae aelod o'r Uned Rheoli Gweithrediadau Cudd o fewn yr Adran Troseddau Arbenigol, wedi bod yn rhan o'r broses o godi ymwybyddiaeth o drawsrywedd o fewn yr Heddlu. Drwy ei waith yn y gymuned, roedd yn gallu cyflwyno unigolyn, sy'n cydnabod ei bod yn drawsrywiol, i gydweithwyr a'i helpodd i ffurfio fforwm a ddarparodd i swyddogion gweithredol. Drwy'r fforwm, roedd yn gallu amlygu pa mor agored i niwed y gall pobl drawsrywiol fod a chynnig cyngor i swyddogion ar sut i ryngweithio â'r gymuned drawsrywiol.

Mae Heddlu De Cymru yn ymrwymedig i gynyddu nifer y bobl sy'n rhoi gwybod am drosedd casineb, yn enwedig pobl drawsrywiol ac, fel y trafodwyd yn gynharach, dyma un o chwe amcan cydraddoldeb strategol cyfredol yr heddlu wrth wella ymddiriedaeth a magu hyder ein cymunedau amrywiol.

Cynhaliodd y **Fforwm LHDT ddigwyddiad yn Amgueddfa Abertawe** ym mis Chwefror i ddathlu'r Mis Hanes LHDT, nodi pen-blwydd y Fforwm yn un oed a hefyd dangos y rhaglen ddogfen 'Call me Kucha - They will say we are not here', sy'n rhaglen fanwl a chall am homoffobia Uganda sy'n siarad gyda gweithredwyr hoyw a'r rheini sy'n eu herlid. Yn ogystal â dangos y rhaglen ddogfen, roedd gan nifer o'r aelod sefydliadau stondinau gyda gwybodaeth, a chafwyd areithiau gan Aelodau'r Cabinet, Pennaeth y Fforwm a'r Rainbow Group.

O ganlyniad i gyfarfod fforwm LHDT Bae Abertawe, nodwyd bod diffyg darpariaeth ar gyfer Pobl Ifanc LHDT yn Abertawe. Oherwydd hyn sefydlwyd gweithgor bach yn cynnwys

aelodau o Heddlu De Cymru, Llinell Gymorth LGBT Cymru, Terrence Higgins, Transgender in Wales, Tawe Butterflies a Phrosiect Undod LHDT Bae Abertawe i ystyried sut y gellid mynd i'r afael â hyn. Cyfarfu Tîm Ymgysylltu'r Gorllewin ag INFO Nation, sef gwasanaeth gwybodaeth i bobl rhwng 11 a 25 oed a leolir yn Kingsway Abertawe ac mae trefniadau bellach wedi'u gwneud i ddechrau sesiwn **galw heibio i ieuenctid LHDT** yn y lleoliad ar nos Iau. Mae Hyfforddiant Amddiffyn Plant a Hyfforddiant Diogelu hefyd wedi'u trefnu a bellach wedi'u cwblhau ar gyfer gwirfoddolwyr sydd am helpu gyda'r nos.

Gobaith Fforwm LHDT Bae Abertawe yw lansio'r sesiwn galw heibio cyn diwedd 2013.

Mae **Prosiect Undod LHDT Bae Abertawe** yn fenter lol sydd wedi'i sefydlu yn Abertawe sy'n ymrwymedig i roi cyngor a chymorth i unigolion LHDT, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Nodau'r Prosiect Undod yw sicrhau nifer o fentrau gwahanol, gydag un yn ymwneud yn benodol â throedd casineb gyda chymorth a chefnogaeth Heddlu De Cymru. Mae Tîm Ymgysylltu â'r Gymuned y Gorllewin wedi helpu'r prosiect drwy fod yn aelodau a rhoi cyngor ac arweiniad ynghylch troedd casineb, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd yng Ngorsaf yr Heddlu Cockett.

Ar 2 Iain Medi 2012, roedd gan Dîm Ymgysylltu â'r Gymuned y Gorllewin mewn partneriaeth â Bi Cymru, stondin yng nghanol Dinas Abertawe i godi ymwybyddiaeth o'r **Diwrnod BiVisibility** ymhlith y gymuned nad ydynt yn Lesbiaidd, Hoyw na'n Ddeurywiol. Yn ystod y diwrnod siaradodd swyddogion â thros 100 o aelodau'r cyhoedd a rhoi dealltwriaeth iddynt o beth yw'r diwrnod BiVisibility a gwnaeth hefyd roi'r cyfle i swyddogion godi ymwybyddiaeth o droedd casineb gydag aelodau'r cyhoedd.

Yn URS y Gogledd, mae lansio a chefnogaeth barhaus **Rhwydwaith Cefnogi LHDT Rhondda** wedi bod yn flaenoriaeth i Heddlu De Cymru a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

I gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 8fed Mawrth, **trefnwyd diwrnod codi**

ymwybyddiaeth ar gyfer swyddogion

benywaidd o fewn yr Heddlu i fynd i seminar yng Ngwesty Heronstone, Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn rhoi'r cyfle i adrannau, lle nad oes gan ferched gynrychiolaeth ddigonol, i gyflwyno'r cyfleoedd sydd ar gael i'r swyddogion sy'n bresennol. Roedd gan bob adran gyflwyniad 20 munud i hyrwyddo rolau yn eu hadrannau, wedi'i ddilyn gan gyfle am sesiwn un i un gyda chynrychiolwyr o fewn y maes busnes hwnnw. Roedd hwn yn gyfle gwych a ategodd ymrwymiad yr Heddlu i recriwtio, cadw a datblygu staff o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cynhaliwyd **diwrnod agored blynyddol** yr URS Ganolog yng Ngorsaf Dân y Barri ym mis Medi ac roedd nifer fawr o bobl yn bresennol. Ar wahân i'r arddangosfeydd arferol gan wasanaethau brys a phartneriaid statudol, roedd partneriaid amrywiol y trydydd sector hefyd yn cael eu cynrychioli, fel Atal y Fro, Flying Start, Gwasanaethau Ieuenctid, Diogelwch ar y Ffyrdd a Pen yr Enfys. Roed y diwrnod yn llwyddiant ysgubol o ran gweithredu cadarnhaol a gwerthu Heddlu De Cymru fel dewis gyflogwr a sefydliad sy'n ymdrechu i gydnabod gwahaniaeth.

Mae cyfarfodydd **PACT Ieuenctid** hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn Ysgol Stanwell yn ardal yr URS Ganolog. Gall y bobl ifanc sy'n bresennol fynegi unrhyw bryderon neu broblemau sydd ganddynt gan weithio gydag asiantaethau partner. Os bydd angen, caiff Blaenoriaethau PACT eu pennu. Roedd wedi'i nodi bod problem gyda phobl ifanc yn tan-gofnodi troeddau. Mae hyn bellach wedi'i godi gyda'r PACT Ieuenctid. Hysbysebair y cyfarfodydd ar ein bobi a chaiff blaenoriaethau eu pennu yn y cyfarfodydd.

Ym mis Ionawr, gweithiodd staff yr Adran Dysgu a Datblygu gyda'r Tîm Ymgysylltu â'r Gymuned i **gefnogi ysgolion** yn yr URS Ganolog drwy gymryd rhan mewn cyfweiliadau ffug ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae sawl ymweliad wedi'i drefnu i Ganolfan Gymunedol Affrica, Canolfan Ddydd Abergelli Road (Clwb Dydd

Mercher), Canolfan Ddydd St Phillips (Clybiau Dydd Llun a Dydd Mercher) a Pobl yn Gyntaf Abertawe ymweld ag Amgueddfa Heddlu De Cymru. Nod yr ymweliadau hyn yw **gweithio gyda grwpiau lleiafrifol** o bob rhan o'r URS a gwella ymddiriedaeth a magu hyder, ond yn bwysicaf, egluro bod yr heddlu yno i weithio gyda'r gymuned a'i helpu gydag unrhyw broblemau a all fod ganddi. Mae ymweliadau eraill wedi'u trefnu ar gyfer y misoedd nesaf gan fod ymweld ag Amgueddfa'r Heddlu yn gyfle gwyb i ymgysylltu â'r cyhoedd.

ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Heddlu De Cymru wedi bod â phroses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar waith ers nifer o flynyddoedd. Caiff ei chynnal o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan gaiff polisiâu, arferion neu weithgareddau newydd eu datblygu neu benderfyniad newydd ei gynnig
- Pan gaiff newidiadau eu cynnig i bolisiau, arferion, gweithgareddau neu benderfyniadau cyfredol
- Pan fo cynigion i dynnu polisi, arfer neu weithgarwch yn ei ôl, neu ei ddileu
- Pan fo Cynllunio Busnes wedi nodi perthnasedd neu oblygiadau cydraddoldeb

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu i sicrhau bod yr Heddlu yn cadarnhau nad yw polisiâu, penderfyniadau a gweithgareddau cyfredol, neu rai a gynigir, yn rhoi unrhyw un dan anfantais anghymesur ac yn ein galluogi ni i ystyried p'un a yw unrhyw ran o'n gwasanaeth neu bolisi yn wahaniaethol (yn wirioneddol neu a ganfyddir) yn erbyn grwpiau neu unigolion.

Felly, rydym yn defnyddio'r Asesiadau hyn i gydymffurfio'n gyfreithiol, ac ar ben hynny fel safon sy'n gymwys ar gyfer holl bolisiau'r Heddlu, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol, yn effeithiol ac yn gynhwysol. Ein nod yw sicrhau yr asesir pob effaith ar gydraddoldeb yn gywir wrth ddatblygu polisi, ac os canfyddir unrhyw effeithiau, y darperir gweithredoedd a sicrwydd i fynd i'r afael ag unrhyw weithredoedd lliniarol angenrheidiol.

Caiff yr Asesiadau eu cynnal gan berchenogion polisiâu, arferion, penderfyniadau a gweithgareddau cyfredol neu rai a gynigir a chânt eu hadolygu gan Gynghorydd hyfforddedig Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn eu cymeradwyo neu'n gofyn am newid.

Caiff y broses ei hadolygu'n rheolaidd ac mae'n ystyried y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Caiff canlyniadau'r Asesiadau eu cymharu a'u cyhoeddi yn yr **Adroddiad Blynyddol ar Wybodaeth am Gydraddoldeb** y gellir ei weld ar y wefan gorfforaethol, sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth arall am gydraddoldeb i amlygu cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Ymhlith y wybodaeth arall am gydraddoldeb a geir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ar Wybodaeth am Gydraddoldeb, ceir gwybodaeth am fonitro cyflogaeth, cyfraddau bodlonrwydd dioddefwyr ar gyfer dioddefwyr trosedd casineb ac ystadegau stopio a chwilio.

RHESTR TERMAU

ACPO

Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru

Achrediad Dau Dic

Cydnabyddiaeth a roddir gan y Ganolfan Byd Gwaith i gyflogwyr ym Mhrydain Fawr sydd wedi cytuno i gymryd camau i fodloni pum ymrwymiad o ran cyflogaeth, cadw staff, hyfforddiant a datblygu gyrfa cyflogaeth anabl. Caniateir i sefydliadau sy'n cymryd rhan ddangos y logo dau dic sy'n symboleiddio bod y sefydliad yn gadarnhaol ynghylch pobl anabl

Addasiadau Rhesymol

Y camau rhesymol y mae angen i gyflogwyr eu cymryd i sicrhau nad yw cyflogaeth ag anableddau dan unrhyw anfantais sylweddol. Gallai addasiadau gynnwys darparu hyfforddiant ychwanegol, cymhorthion ategol, newid patrymau sifft

Aflonyddwch

Ymddygiad digroeso gyda'r bwriad o effeithio ar urddas rywun arall neu greu amgylchedd bygythiol, anghyfeillgar, diraddiol, bychanol neu ymosodol i'r unigolyn hwnnw

Amrywiaeth

Parchu gwahaniaethau pobl

Comander yr URS

Arweinir pob URS gan Gomander yr URS sydd ar reng Uwcharolygydd neu Brif Uwcharolygydd

COMPSTAT

Mae'r model Compstat yn broses reoli o fewn fframwaith rheoli perfformiad sy'n cyfod dadansoddiad o ddata trosedd ac anhrefn, datrys problemau'n strategol a strwythur atebolrwydd clir. Yn ddelfrydol, mae Compstat yn hwyluso dadansoddiad cywir ac amserol o ddata trosedd ac anhrefn, a ddefnyddir i nodi patrymau a phroblemau trosedd

Cydraddoldeb

Cyfle cyfartal i bawb

Cyfeirlyfr KINs

Cyfeirlyfr o Unigolion Allweddol yn y Gymdogaeth (Key Individuals in the Neighbourhood) a all fod yn sianel i gyfleu gwybodaeth i'r gymuned

Cynllun Cyswilt Cyntaf

Cynllun cymotrh i gyflogaeth sy'n cynnig cymorth a chyngor cyfrinachol mewn perthynas â gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth

Digwyddiad Casineb

Unrhyw ddigwyddiad, sy'n cyfrif fel trosedd neu beidio, ac a ysgogir gan ragfarn neu gasineb ym marn y dioddefwr neu unrhyw un arall

Economaidd-gymdeithasol

Ymhlith y ffactorau economaidd-gymdeithasol mae'r profiadau a'r gwirioneddau sy'n helpu i ffurfio personoliaeth, agweddau a ffordd o fyw unigolyn. Gall y ffactorau hefyd ddiffinio rhanbarthau a chymdogaethau. Er enghraifft, mae heddluoedd (ac Awdurdodau'r Heddlu) yn cydnabod bod ffactor economaidd-gymdeithasol tlodi yn gysylltiedig ag ardaloedd sydd â chyfraddau troseddu uchel

Erledigaeth

Trin rhywun yn annheg (yn ymwneud yn benodol â phobl sydd wedi gwneud cwyn neu wedi cynnal trafodion tribiwnlys mewn ewyllys da)

Ffrindiau Critigol

Ein Grŵp Cyngori Annibynnol gyda chynrychiolwyr o'r grwpiau Anabledd, Rhyw, Hil a Thueddfryd Rhywiol

Grŵp Cydlyniant Cymunedol

Partneriaeth aml-asiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector / sector gwirfoddol

Grwpiau Cefnogi Staff

Grwpiau sy'n cefnogi staff sydd o grwpiau amrywiol. Ymhlith y Grwpiau Cefnogi Staff o fewn Heddlu De Cymru mae'r Rhwydwaith Galluogi Staff, y Gymdeithas Heddlu Du, y Gymdeithas Heddlu Cristnogol, y Gymdeithas Heddlu Benywaidd a'r Rhwydwaith Staff Hoyw

Gwahaniaethu Anuniongyrchol

Defnyddio darpariaeth, maen prawf neu arfer sy'n rhoi grŵp gwarchodedig dan anfantais

Gwahaniaethu drwy Ganfyddiad

Hynny yw, gwahaniaethu uniongyrchol yn erbyn rhywun gan fod eraill o'r farn fod ganddo nodwedd warchodedig benodol. Nid oes yn rhaid iddo o reidrwydd fod â'r nodwedd warchodedig honno, dim ond bod o'r farn honno

Gwahaniaethu drwy Gysylltiad

Trin rhywun yn llai ffafriol oherwydd ei gysylltiad â rhywun sydd â nodwedd warchodedig benodol neu am y credir yn anghywir fod gan yr unigolyn hwnnw y nodwedd warchodedig honno

Gwahaniaethu Uniongyrchol

Yn defnyddio oedran, anabledd, rhyw, beichiogrwydd, hil, crefydd neu gred, tueddfryd rhywiol neu statws trawsrywedd fel rheswm clir dros drin grŵp penodol yn llai ffafriol nac eraill

Gweithredu Cadarnhaol

Ystod o fesurau a mentrau datblygu i helpu pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, lle maent wedi'u heithrio neu eu bod dan anfantais yn hanesyddol

ISTAM

Cyfarfod aml-asiantaeth gyda'r Heddlu a phartneriaid lle caiff achosion unigol eu trafod gyda'r nod o ddatrys problemau

LHDT

Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol

Llinyn Amrywiaeth

Sef, 'nodweddion gwarchodedig' o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yng Nghymru, ceir oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, tueddfryd rhywiol a'r iaith Gymraeg.

MARAC

Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth

Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall

Ymarfer meincnodi blynyddol cynhwysfawr sy'n amlygu cyflogwyr gorau Prydain ar gyfer staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol

NCALT

Canolfan Genedlaethol ar gyfer Technolegau Dysgu Cymwys

Nodwedd Warchodedig

Terminoleg newydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn hytrach na 'lliny' i nodi "sail" y caiff diogelwch yn erbyn gwahaniaethu mewn ffyrdd amrywiol ei ddeddfu. Ymhlith y 'nodweddion gwarchodedig' mae oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred (yn cynnwys diffyg cred); rhyw [h.y. rhywedd] a thueddfryd rhywiol

NSPIS

System Wybodaeth Safonol Genedlaethol yr Heddlu - System Gorchymyn a Rheoli

PACT

Partneriaethau a Chymunedau Ynghyd

Trawsrywedd

Yn ymddangos fel, yn awyddus i gael ei adnabod fel, neu wedi cael llawdriniaeth i fod yn aelod o'r rhyw arall

Trosedd Casineb

Unrhyw ddigwyddiad, sy'n cyfrif fel trosedd, ac a ysgogir gan ragfarn neu gasineb ym marn y dioddefwr neu unrhyw un arall

URS

Uned (arfer bod yn Is-adran) Reoli Sylfaenol. Mae gan Heddlu De Cymru 4 (Gogledd, Dwyrain, Canolog a Gorrllwin)

Yn Agored i Niwed (dioddefwr neu dyst)

Yn cynnwys a) pob tyst sy'n blentyn (o dan 17 oed) b) unrhyw dyst y mae ansawdd ei dystiolaeth yn debygol o gael ei leihau am ei fod yn dioddef o anhwylder meddyliol, bod ganddo nam sylweddol ar ei ddeallusrwydd neu ei ffordd o gymdeithasu (e.e. anabled dysgu) neu fod ganddo anabledd corfforol neu ei fod yn dioddef o anhwylder corfforol. Gall pobl sy'n dioddef eto, dioddefwyr digwyddiadau casineb a dioddefwyr oedrannus hefyd gael eu hystyried fel pobl sy'n agored i niwed.